Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yr Hyn sy'n Gweithio wrth Drechu Tlodi Gwledig:

Adolygiad o Dystiolaeth o Ymyriadau Economaidd

John Powell, Dan Keech a Matt Reed
Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a'r Gymuned
Prifysgol Swydd Gaerloyw
Mawrth 2018

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru[1] yn gwella prosesau llunio a chyflawni polisïau drwy gomisiynu gwaith dadansoddi a chyngor arbenigol a hyrwyddo'r defnydd ohonynt. Mae'r Sefydliad yn annibynnol ar y llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisi er mwyn helpu i ddatblygu syniadaeth o'r newydd ynglŷn â sut i fynd i'r afael â heriau strategol a materion polisi cymhleth. Mae'n gwneud y canlynol:

Gweithio'n uniongyrchol gyda Gweinidogion Cymru i nodi'r dystiolaeth sydd ei hangen arnynt;

Cyfeirio at ymchwil berthnasol ac yn comisiynu arbenigwyr polisi i ddarparu gwaith dadansoddi a chyngor ychwanegol lle mae bylchau yn y dystiolaeth;

Darparu cyswllt cryf rhwng Canolfannau 'What Works' a llunwyr polisi yng Nghymru;

Arwain rhaglen ymchwil i'r Hyn sy'n Gweithio wrth Drechu Tlodi.

Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn www.wcpp.org.uk

Arianwyr Craidd

[1] Ym mis Hydref 2017 daeth Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru yn rhan o Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. . Mae'r Ganolfan yn adeiladu ar lwyddiant y Sefydliad, a bydd yn parhau â'i waith o ddiwallu anghenion tystiolaeth Gweinidogion Llywodraeth Cymru, ynghyd â chenhadaeth newydd i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a chymhwyso tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio wrth ateb heriau economaidd a chymdeithasol allweddol. Cafodd yr aseiniad hwn ei gomisiynu ar gyfer rhaglen waith olaf y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru.

Cynnwys

Crynodeb 4

Cyflwyniad 5

Disgrifiad o'r Ymyriadau 5

Effeithiolrwydd Ymyriadau 17

Goblygiadau Polisi 22

Cyfeiriadau 26

Atodiad 1 – Rhagor o Wybodaeth am Ymyriadau Economaidd 29

Crynodeb

- Mae'r diffyg cyfleoedd economaidd, ansicrwydd diogelwch swydd a chyflogau isel yn ffactorau pwysig sy'n achosi tlodi gwledig mewn sawl rhan o Gymru.

- Mae'r adroddiad hwn yn archwilio pa mor effeithiol yw dulliau o atgyfnerthu economïau gwledig gan ddefnyddio gwerthusiadau o ymyriadau mewn amrywiaeth o wledydd OECD. Mae'n nodi pedwar prif ddull gweithredu: rhaglenni datblygu strategol mawr ledled ardal; benthyciadau; buddsoddi angel; a Chyfrifon Datblygu Unigol.

- Mae'n anodd gwerthuso rhaglenni datblygu economaidd gwledig mawr ledled ardal ac ymddengys eu bod wedi llwyddo i raddau cymysg. Mae tystiolaeth eu bod yn gallu cyflawni newid strwythurol a systemig ar yr amod bod rhanddeiliaid yn chwarae rhan effeithiol, y gweithir mewn partneriaeth ac y cydgysylltir mentrau unigol. Gall ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd gynnig cyfleoedd i Gymru ddatblygu rhaglenni mawr sy'n diwallu ei hanghenion ac yn integreiddio gwaith datblygu economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gan gefnogi amaethyddiaeth, pysgodfeydd a choedwigaeth.

- Mae tystiolaeth y gall benthyciadau cylchol, sy'n ailgylchu un pot o arian dros amser, fod o fudd i fwy o bobl neu fusnesau. Gallai cynlluniau a gefnogir gan y llywodraeth ar gyfer buddsoddiadau risg uchel bach a mawr fod o fudd i economïau gwledig yng Nghymru.

- Awgryma tystiolaeth o UDA a Chanada fod 'buddsoddi angel' yn werthfawr i weithgareddau busnes bach a mwy mentrus, gan lenwi'r bwlch rhwng benthyca gan deulu a ffrindiau, a chyfalaf menter neu fenthyca masnachol.

- Mae Cyfrifon Datblygu Unigol, sy'n gwobrwyo cynilo ag arian ychwanegol unwaith y cyflawnir targed, wedi bod ar waith yn llwyddiannus mewn saith talaith yn UDA ers sawl blwyddyn, ac mae tystiolaeth y gallant helpu unigolion a chartrefi allan o dlodi.

- Nid yw'n debygol y bydd mabwysiadu'r ymyriadau hyn ar eu pen eu hunain yn cael llawer o effaith ar dlodi gwledig. Mae angen i lunwyr polisi hyrwyddo strategaethau integredig sy'n cyfuno mentrau i annog twf busnesau â chymorth i unigolion. Mae'r dull hwn o weithredu yn fwy tebygol o sicrhau'r gwasanaethau a'r sgiliau sydd eu hangen i achub ar gyfleoedd gwaith a chamu ymlaen mewn gyrfa.

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi ystod eang o raglenni i fynd i'r afael â thlodi gwledig ac eto mae amcangyfrifon diweddar yn awgrymu bod bron i chwarter o'r boblogaeth wledig yng Nghymru yn byw mewn tlodi. Mae'r hyn sy'n achosi tlodi gwledig yn gymhleth ac yn niferus, ond gwyddys bod diffyg cyfleoedd economaidd, ansicrwydd diogelwch swydd, a chyflogau isel yn ffactorau pwysig sy'n cyfrannu ato. Felly, mae'n hanfodol gwella amodau datblygu busnes a chreu swyddi er mwyn lleddfu tlodi hirdymor mewn ardaloedd gwledig.

Mae pwysau parhaus ar gyllideb Llywodraeth Cymru ynghyd â'r posibilrwydd y collir arian yr UE ar gyfer rhaglenni gwledig yn golygu ei bod yn hollbwysig bod adnoddau yn targedu'r dulliau mwyaf costeffeithiol o atgyfnerthu economïau gwledig er mwyn mynd i'r afael â thlodi gwledig.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r ymyriadau sydd wedi ceisio lleihau tlodi gwledig drwy gefnogi economïau gwledig mewn amrywiaeth o wledydd OECD. Daw'r dystiolaeth o'r llenyddiaeth academaidd, dogfennau'r llywodraeth, adroddiadau blynyddol a gwefannau sefydliadol y chwiliwyd drwyddynt. Mae'n canolbwyntio ar astudiaethau a gyhoeddwyd o 2000 ymlaen sy'n darparu rhyw fath o werthusiad, neu asesiad effaith, o ymyriadau perthnasol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymyriadau a nodir mewn gwledydd Saesneg eu hiaith, yn enwedig yn y DU, Canada, UDA, Awstralia a Seland Newydd, er bod rhai astudiaethau perthnasol o gyfandir Ewrop, yn enwedig Sgandinafia.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddau brif fath o ymyriad:

- Rhaglenni datblygu mawr a ariennir gan y wladwriaeth (fel rhaglenni Datblygu Gwledig yr UE) sy'n ceisio ysgogi sectorau lleol a rhanbarthol o economïau mawr;
- Ymyriadau sy'n anelu'n benodol at gynyddu 'cyfoeth' unigolion neu ardaloedd.

Nid yw'n archwilio'r hyn y gellir ei alw'n rhaglenni 'lleddfu tlodi', sy'n anelu at gynorthwyo cartrefi a gaiff eu categoreiddio'n rhai 'mewn tlodi' drwy bolisïau ailddosbarthu, fel lles a gwahanol fathau o drosglwyddo budd-daliadau.

Mae'r adroddiad yn disgrifio ymyriadau a nodwyd gan yr adolygiad o dystiolaeth bresennol, yn archwilio eu heffeithiolrwydd, ac yn trafod y goblygiadau polisi i Gymru.

Disgrifiad o'r Ymyriadau

Mae nifer o enghreifftiau o brosiectau sy'n targedu agweddau ar ddatblygu economaidd gwledig, fel meithrin sgiliau, creu swyddi, atgyfnerthu cadwyni cyflenwi, ac ychwanegu gwerth at gynhyrchion. Hefyd, ceir nifer fawr o raglenni datblygu gwledig bach ledled ardal. Yn Ewrop, y rhaglen fwyaf adnabyddus yw LEADER (talfyriad Ffrangeg am 'Cysylltiadau rhwng camau gweithredu i ddatblygu'r economi wledig') a ddechreuodd ar ddechrau'r 1990au ac a weithredir ar hyn o bryd o dan Reoliad Datblygu Gwledig yr UE. Mae llawer o brosiectau unigol o fewn ardaloedd LEADER wedi cael peth llwyddiant yn cefnogi datblygu economaidd yn lleol, ond mae'n fwy cymhleth dynwared prosiectau o'r fath mewn cyd-destunau gwahanol. Efallai na fydd prosiect sy'n effeithiol mewn un cyd-destun yn gweithredu cystal o dan amodau gwahanol, ac nid yw effeithiolrwydd prosiectau unigol, neu hyd yn oed grwpiau o brosiectau, yn trosi'n welliant ledled ardal o reidrwydd. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio ymyriadau lefel rhaglen a all wneud newidiadau hirdymor a chynaliadwy i economi wledig rhanbarth, neu wlad, fel Cymru.

Mae Tabl 1 yn nodi nifer o ddulliau o wella economïau gwledig. Mae'r ymyriadau hyn (a ddisgrifir yn fwy manwl yn Atodiad A) yn amrywio o gefnogi unigolion (er enghraifft cyfrifon datblygu unigol) i raglenni datblygu economaidd ledled talaith (er enghraifft Farm-to-Plate yn Vermont). Cawsant eu dewis i gynrychioli amrywiaeth o ddulliau amgen o gefnogi datblygu economaidd gwledig, sydd wedi cael eu gwerthuso'n ddigon cadarn i allu llunio rhai casgliadau ynghylch eu heffeithiau.

Y brif her wrth gyflwyno set o ymyriadau o wahanol wledydd, fel yr hyn sydd yn Nhabl 1, yw'r angen i ddeall y cyd-destun polisi y mae pob ymyriad yn gweithredu ynddo er mwyn deall yn llawn yr hyn sy'n ei wneud yn effeithiol. Mae pob ymyriad yn rhan o gyd-destun polisi economaidd-gymdeithasol penodol, lle gall effeithiolrwydd ac effaith ddibynnu ar gefnogi rhaglenni a strwythurau ariannol sy'n cymell gweithredu. Gallai cymryd ymyriad penodol allan o'i gyd-destun lleol arwain at gamddehongli a chamddeall. Rydym wedi ceisio ystyried hyn yn yr adroddiad drwy ddewis ymyriadau sy'n bodloni meini prawf ar gyfer eu trosglwyddo i Gymru:

- Y potensial i weithredu y tu allan i'r cyd-destun lleol (h.y. ddim yn dibynnu ar raglenni llwyddiant cysylltiedig);
- Wedi'u dewis o ardaloedd lle mae peth tebygolrwydd rhwng y cyd-destun gwledig a Chymru wledig (e.e. talaith wledig fach Vermont yn UDA);
- Ni fyddai cymhwyso/gweithredu'r ymyriad yn gofyn am newid strwythurol sylweddol i bolisïau a phrosesau gwleidyddol presennol

Drwy gymhwyso'r meini prawf hyn nodwyd 10 ymyriad mewn tair gwlad (a'r Undeb Ewropeaidd o ran rhaglenni amaethyddiaeth a datblygu gwledig).

Gall yr ymyriadau hyn gael eu gosod mewn pedwar categori eang o gymorth datblygu economaidd gwledig:

- Rhaglenni datblygu ledled ardal (gan gynnwys datblygu gwledig, a rhaglenni cymorth amaethyddiaeth);
- Grantiau a benthyciadau'r llywodraeth;
- Ffynonellau cyfalaf rhanddeiliaid (gan gynnwys benthyciadau cymunedol; arian araf; buddsoddi angel);
- Dulliau cymorth unigol.

Rhaglenni datblygu ledled ardal

Mae Tabl 1 yn rhoi tair enghraifft o raglenni ledled ardal sy'n targedu datblygu economaidd gwledig yn benodol:

- 'Strengthening Economic development in rural communities' gan The Duke Endowment;
- 'Farm-to-Plate' yn Vermont;
- Rhaglenni datblygu gwledig yr UE (gan gynnwys LEADER).

'Strengthening Economic development in rural communities' gan The Duke Endowment

Gweithredodd The Duke Endowment mewn partneriaeth ledled 22 o siroedd yng ngogledd a de Carolina, gan weithio gyda sefydliadau fel eglwysi ac ysbytai a chorff hwyluso cymunedol. Canolbwyntiwyd yn bennaf ar greu swyddi a hyfforddiant mewn cymunedau gwledig. Nododd y gwerthusiad o'r prosiect (a gynhaliwyd yn fewnol) mai dim ond 10 o'r prosiectau a ariannwyd a arweiniodd at newid sylweddol a pharhaol, ac o ran creu swyddi awgrymodd y gwerthusiad mai dim ond 36% o'r rhai a gafodd hyfforddiant a gafodd waith. Daeth y rhaglen i ben yn 2009, yn fuan ar ôl i ddirwasgiad economaidd lesteirio economi'r UD yn ei chyfanrwydd (a all gyfrif am y diffyg tystiolaeth o effeithiau economaidd hirdymor). Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad yn nodi buddiannau ehangach, gan gynnwys:

- datblygu arweinyddiaeth allweddol ac asedau allweddol eraill yr oedd eu hangen er mwyn sicrhau adnewyddu economaidd hirdymor;
- parodrwydd pobl a sefydliadau i weithio ar draws ffiniau ac ymgysylltu ag eraill (ymhlith y ffiniau roedd rhai hiliol, daearyddol, tiriogaethol a sefydliadol);
- gwnaeth yr amser a gymerwyd i asesu cyd-destunau lleol a datblygu cynlluniau helpu timau i feithrin dealltwriaeth ddibynadwy o'r sefyllfa gymunedol roeddent am ei newid.

‘Farm-to-Plate’ yn Vermont

Cymerir camau ac iddynt fwy o ffocws yn Vermont ar hyn o bryd, sef talaith wledig mynyddig bach yng ngogledd-ddwyrain UDA. Prif nod rhaglen 'Farm-to-plate' yw meithrin datblygu economaidd ar sail sector amaethyddol y dalaith. Mae Farm-to-Plate yn rhaglen daleithiol 10 mlynedd a ddechreuodd yn 2009 sy'n anelu at “…increasing development and jobs in the farm and food sector through enhancing food processing capacity, and improving access to healthy local food”. Mae gan y rhaglen gyfanswm o 25 o amcanion sy'n ymwneud â chynyddu cynhyrchiant, gwerthiannau, a'r defnydd o fwyd lleol, a sefydlwyd er mwyn cyflawni newid sylweddol mewn gweithgarwch economaidd, ac mae gan bob amcan nifer o strategaethau, camau gweithredu a dangosyddion perfformiad er mwyn sicrhau cynnydd. Er mwyn cyflawni'r lefel uchel o gydgysylltu sydd ei hangen rhwng gwahanol sectorau, cafodd rhwydwaith sefydliadol ei greu gan gwmpasu pob elfen yn y gadwyn gyflenwi, ac wedi'i gefnogi gan Gronfa Swyddi Cynaliadwy Vermont. Treuliodd y Gronfa 18 mis yn datblygu'r strategaeth cyn i'r rhaglen ffurfiol gael ei lansio yn 2011 (rhoddir manylion y broses weithredu yn yr adran 'Effeithiolrwydd Ymyriadau' ar dudalen 15 o'r adroddiad hwn).

Rhaglenni datblygu gwledig yr UE (gan gynnwys LEADER)

Mewn sawl ffordd, mae Farm-to-Plate Vermont yn debyg (er efallai â mwy o ffocws daearyddol a thargedau strategol) i raglenni datblygu gwledig a weithredir o dan Reoliad Datblygu Gwledig yr UE o fewn holl aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd. Mae rhaglenni datblygu gwledig yr UE yn amrywio'n fawr ledled Ewrop gyda chamau gwahanol yn cael eu cymryd mewn aelod-wladwriaethau â chymysgedd o gamau ar lefel genedlaethol a rhanbarthol (mae gan Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon eu rhaglenni datblygu gwledig eu hunain). Mae rhaglenni'r DU wedi canolbwyntio'n bennaf ar gefnogi gwelliannau ecolegol drwy roi cefnogaeth economaidd barhaus i gytundebau amaeth-amgylcheddol. Mae'r rhaglenni'n gweithredu dros gylchoedd rhaglen saith mlynedd, gyda chryn fuddsoddi yn y sector gwledig.

Er enghraifft, gwariwyd €4,445 miliwn rhwng 2007 a 2013 ar raglen datblygu gwledig Lloegr 2007-13, a rannwyd rhwng tri amcan bras (y cyfeirir atynt fel 'Axes' yn nogfennaeth y rhaglen datblygu gwledig):

- Echel 1 - Gwella cystadleurwydd y sectorau ffermio a choedwigaeth;
- Echel 2 - Gwella'r amgylchedd a chefn gwlad;
- Echel 3 - Ansawdd bywyd gwledig ac arallgyfeirio'r economi wledig.

Aeth y rhan fwyaf o'r arian (81%) yn rhaglen datblygu gwledig Lloegr i Echel 2, y dyrannwyd 82% ohono i Fesur 214 i gefnogi cytundebau amaeth-amgylcheddol. Yn gyffredinol, cafodd dwy ran o dair o gyfanswm gwariant y rhaglen datblygu gwledig yn Lloegr rhwng 2007 a

2013 ei wario ar barhau i gefnogi ffermwyr o ran cytundebau amaeth-amgylcheddol. Roedd cyfanswm o 10% o'r arian yn canolbwyntio ar Echel 1 (gwella cystadleurwydd ffermio a choedwigaeth), tra dim ond 5% oedd yn canolbwyntio ar ansawdd bywyd ac arallgyfeirio'r economi wledig (Echel 3). Cyfeiriwyd 4% arall i weithredu grwpiau gweithredu lleol o dan raglen LEADER (sef Echel 4), a oedd yn amrywio ledled y wlad o ran y Mesurau a'r Echelau y gellid eu cyflwyno yn eu hardaloedd tiriogaethol (Defra, 2016). Rhannwyd cymorth LEADER rhwng 64 o ardaloedd a reolwyd gan Grwpiau Gweithredu Lleol a oedd yn cynnwys sefydliadau o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Roedd y grwpiau gweithredu lleol yn amrywio'n fawr o ran eu heffeithiolrwydd, yn seiliedig ar wahanol gyd-destunau lleol, cyfansoddiad y grwpiau, a phrofiad blaenorol personél o reoli cyllid datblygu'r UE.

Cafodd cyfanswm o 39% o gyllid Echel 3 ei gyflwyno bron i gyd drwy grwpiau LEADER yn canolbwyntio ar fesurau adnewyddu gwasanaethau a phentrefi bach "…which together supported 14,000 small enhancements to rural facilities and rural community events, with village renewal measures reaching an average of 28 villages in each LAG area" (Defra, 2016). Nid yw effaith y gwelliannau hyn, er y gallent fod yn bwysig i'r buddiolwyr unigol yn lleol, wedi'u hasesu mewn modd mwy integredig.

Cafodd y broses o weithredu Echelau 3 a 4 o raglen datblygu gwledig 2007-13 ei hintegreiddio'n agosach yng Nghymru ond awgrymodd y gwerthusiad ôl-weithredol (Griffiths, et al., 2013) fod gweithredu LEADER yn 'ddarniog' ac mai ar lefel ficro yn hytrach na lefel facro y gwelwyd buddiannau economaidd yn gyffredinol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad na chafwyd effaith economaidd sylweddol yn gyffredinol a'i bod yn amrywio'n fawr rhwng un ardal a'r llall.

Tabl 1. Trosolwg cryno o ymyriadau: yr economi wledig

Pwnc: Yr Economi Wledig

Ymyriad	Lleoliad	Nodweddion	Disgrifiad o'r ymyriad	Gwerthusiad
Strengthening Economic development in rural communities' gan The Duke Endowment'	Gog. a De Carolina, UDA	Cymorth i gymunedau gwledig sy'n wynebu cau gweithfeydd, rhaniadau diwylliannol a phrinder arweinyddiaeth sy'n ei chael yn anodd ysgogi twf economaidd. Gweithredodd 2001 – 2009.	Lansiodd The Duke Endowment raglen i gynhyrchu canlyniadau economaidd ymarferol, fel swyddi newydd neu well o ganlyniad i hyfforddiant neu ddatblygu swydd. Dyrannwyd cyfanswm o $11.7 miliwn mewn grantiau ledled 22 o siroedd neu ranbarthau aml-sir.	Prin yw'r gwaith gwerthuso, gan o bosibl ffafrio buddiannau'r rhaglen. Canlyniadau cymysg. O'r 22 o safleoedd a ddewiswyd ar gyfer grantiau, cwblhaodd 20 y rhaglen. Gwnaeth 17 o'r 20 barhau â gweithgareddau ar ôl cyfnod y grant. Gwnaeth 10 gyflawni newid sylweddol a pharhaol, tra dysgodd eraill wersi gwerthfawr ynghylch rhwystrau cymdeithasol i dwf economaidd.
Farm-to-Plate	Vermont, UDA	Rhaglen ledled y dalaith i gynyddu cyfleoedd datblygu economaidd a swyddi yn y sector fferm a bwyd. Dechreuodd yn 2009	Fe'i datblygwyd o dan y Gronfa Swyddi Cynaliadwy. Y prif nodau yw cynyddu datblygu economaidd yn sector bwyd a fferm Vermont. Y nodau yw cynyddu cynhyrchiant bwyd lleol a gwerthiannau bwyd lleol, a gwella capasiti prosesu bwyd. Mae'n seiliedig ar y cysyniad o weithgareddau sy'n atgyfnerthu ei gilydd.	Buddsoddwyd cyfanswm o $80 miliwn ers 2009. Cynyddodd y swyddi newydd net amcangyfrifedig yn system fwyd Vermont 6% (3,486) 2009-13, gan gynnwys 1,500 o swyddi gweithgynhyrchu. Cynyddodd y ffermydd a busnesau fferm newydd net amcangyfrifedig 6% (645) 2009-13 gan gynnwys 354 o ffermydd newydd (dim gwybodaeth am y math o swyddi, na maint ffermydd newydd na ffactorau achosol eraill).
Cronfa Benthyciadau Cymunedol Vermont	Vermont, UDA	Mae'r Gronfa hon yn fenthyciwr amgen cymunedol, sy'n darparu benthyciadau i fusnesau lleol, sefydliadau cymunedol a chyrff nid er elw nad ydynt yn gymwys i gael benthyciad oddi wrth fenthyciwr traddodiadol.	Mae'r Gronfa yn darparu cyfalaf benthyciadau er mwyn creu cyfleoedd sy'n arwain at gymunedau iach a sefydlogrwydd ariannol. Ffocws ar fusnesau a rhaglenni sy'n helpu pobl incwm isel yn Vermont i gael gafael ar dai diogel a fforddiadwy, swyddi o ansawdd, gofal plant a gwasanaethau cymunedol hanfodol.	Mae'r Gronfa wedi benthyca dros $85 miliwn ers 1987. Ymhlith y buddiannau mae: - creu neu gynnal 4,500 o swyddi - 3,500 o bobl (a'u teuluoedd) yn cael budd o gartrefi fforddiadwy newydd neu wedi'u hadnewyddu - 3,400 o blant a'u teuluoedd yn cael budd o greu neu gynnal gofal o ansawdd - Helpu sefydliadau cymunedol i ddarparu gwasanaethau hanfodol i drigolion y dalaith
Slow Money Maine	Maine, UDA	Yn cysylltu ffermwyr, pysgotwyr ac entrepreneuriaid bwyd â chyllid. Dechreuodd yn 2010	Yn seiliedig ar y cysyniad o Fenthyca rhwng Cymheiriaid, lle mae unigolion yn gwneud benthyciadau yn uniongyrchol i gynhyrchwyr bwyd. Mae benthyciadau yn amrywio o $1,500 i $40,000 gyda thelerau amrywiol (fel arfer tua 3-5% o log a chyfnod ad-dalu o 1-3 blynedd).	Mae'r fenter wedi rhoi 1.9 miliwn mewn benthyciadau, $1.5 miliwn mewn grantiau, $0.6 miliwn mewn ecwiti. Dyfernir arian fel a ganlyn: $505,000 i ffermydd a busnesau bwyd bach; $2.6 miliwn i brosesu bwyd; $900,000 i ddiogelu ffermdir.

Pwnc: Yr economi wledig

Ymyriad	Lleoliad	Nodweddion	Disgrifiad o'r ymyriad	Gwerthusiad
BrightStar Wisconsin.	Wisconsin, UDA	Canolbwyntir ar greu swyddi. Mae Wisconsin ar ei hôl hi o ran ariannu cwmnïau newydd a chreu swyddi newydd. Cyfnod gweithredu: 2014 - hyd heddiw	Enghraifft o 'fuddsoddi angel', a gefnogir gan gymhellion credydau treth gan y Dalaith. Sefydlwyd y fenter gan wyth rhoddwr a wnaeth addo $500,000 i hadu cronfa o $6 miliwn. Caiff enillion ac elw o fuddsoddi eu hailfuddsoddi. Canolbwyntir ar gwmnïau <100 o gyflogeion sydd wedi bod yn gweithredu >10 mlynedd.	Ym mis Rhagfyr 2016, roedd portffolio BrightStar yn cynnwys 32 o gwmnïau (ers 2014). Mae Adroddiad Blynyddol 2015 yn dynodi cyfanswm asedau o $7.8 miliwn a Buddsoddiadau Portffolio o $3,814,233 mewn 14 o gwmnïau, gan greu cyfanswm o 66 o swyddi o ganlyniad i fuddsoddi (h.y. ar ôl blwyddyn o weithredu). Ym mis Rhagfyr 2015.
Angel Financing	Canada	Economïau gwledig sy'n dioddef diffyg amrywiaeth ac a ddominyddir gan sectorau busnes sy'n dirywio. Mae gweithwyr medrus ifanc yn troi eu cefnau ar Ganada.	Mynd i'r afael â phroblem codi arian cychwynnol ar gyfer busnesau bach. Ceisio llenwi'r bwlch rhwng dyled (benthyciadau banciau) a chyfalaf menter. Buddsoddwyr angel - buddsoddi eu harian eu hunain yn gyfnewid am gyfranddaliadau ecwiti.	Mae'r farchnad angel yn 'bwydo'r' farchnad cyfalaf menter. Tryloyw iawn ond cyfoeth cyfyngedig. Angylion yn aml yn amharod i fuddsoddi.
Menter Cyfrifon Datblygu Unigol	Oregon, UDA	Cynorthwyo unigolion i gynilo a buddsoddi. *'invests in the personal and financial growth of individuals to build strong communities'* Gweithredu ers 1999	Arian cyfatebol yn gymhelliant i'r rhai sy'n cynilo ar gyfer nod penodol. Yn gysylltiedig â hyfforddiant ariannol a chyllidebu. Cyfranogwyr yn cofrestru ac yn pennu nod ar gyfer cynilo. Unwaith y cyflawnir y nod a bod pob rhan o'r cynllun cynilo yn gyflawn, cyfatebir pob doler a gynilwyd.	Y rhaglen fwyaf lwyddiannus yn UDA a'r mwyaf. Nawr y fenter CDU fwyaf ar sail talaith yn yr UD. Agorodd 4,986 o unigolion CDU rhwng mis Ionawr 2012 a mis Mai 2015 Dyblodd nifer y cynilwyr newydd mewn pum mlynedd. Cyfanswm o 70% ar gyfartaledd yn graddio o'r rhaglen bob blwyddyn Gwell arferion ariannol – a gynhelir dros amser.
STREET microfinance	Y DU	Cafodd Street ei sefydlu yn 1999 er mwyn darparu benthyciadau i fusnesau bach iawn a oedd yn cael eu rhedeg gan weithredwyr hunangyflogedig nad	Rhoddodd Sefydliad Esmee Fairbairn £1.3m i Street er mwyn iddo ddatblygu ei waith. Cynigiodd Street, Sefydliad Ariannol Datblygu Cymunedol, £650,000 o fenthyciadau i 260 o ficrofentrau ac ehangodd ei wasanaethau cymorth i fentrau er mwyn helpu ymgeiswyr i fod yn deilwng o gredyd.	Profodd Street alw is na'r disgwyl am ei fenthyciadau a chostau uwch. Mae'n dal i weithredu, gan gynnig benthyciadau rhwng £200 a £1,000 dros flwyddyn. Yn 2015-16 rhoddodd Street flaendaliadau o £2.3 miliwn gan arbed dros £1.5 miliwn i'w gleientiaid. Dywedodd 79% o gleientiaid fod yr effaith yn fwy nag effaith ariannol yn unig

		oeddent yn cael eu hystyried yn deilwng o gredyd gan y banciau. Gweithredodd 2000-03		
Cronfa Ynni Cymunedau Gwledig	Lloegr	Cymorth i gymunedau ddatblygu asedau ynni lleol Gweithredodd: 2013-17	Rhaglen gymorth tri cham drwy fenter rhwng dwy adran lywodraethol (DECC a Defra). Grantiau (hyd at £20,000) ar gyfer astudiaethau dichonoldeb; wedi'u dilyn gan fenthyciadau o hyd at £130,000 i dywys prosiectau drwy'r broses gynllunio.	Mae'r gwerthusiad yn dynodi bod grantiau dichonoldeb yn ffordd werthfawr o nodi prosiectau addas i'w datblygu. Cyllid ar gam 2 i gael prosiectau drwy'r broses gynllunio – defnydd isel. Ystyriwyd bod trefniadau benthyciadau yn anffafriol, a defnyddiwyd ffynonellau eraill o gyllid mewn rhai achosion. Mae newidiadau ym mholisi'r llywodraeth wedi lleihau hyder a llif prosiectau.

Pwnc: Yr Economi Wledig

Ymyriad	Lleoliad	Nodweddion	Disgrifiad o'r ymyriad	Gwerthusiad
Rhaglen Datblygu Gwledig	Lloegr (Holl aelod-wladwriaethau'r UE, a rhai rhanbarthau)	Gweithredodd: 2007-13	Roedd Echel 1 a 3 yn targedu datblygu gwledig o ran gwella cystadleurwydd amaethyddiaeth a gwella ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig. Yn Lloegr defnyddiwyd y mwyafrif o'r cyllid, 79%, i gefnogi cytundebau amaeth-amgylcheddol ar ffermydd. Cyfran gymharol fach yn canolbwyntio ar arallgyfeirio'r economi wledig.	Rhag-werthusiad/Gwerthusiad tymor canolig/ôl-weithredol Cynhaliwyd gwerthusiad ôl-weithredol yn 2015-16. Cynhaliwyd dadansoddiad blaengar o wariant o dan raglenni datblygu gwledig ar gyfer 2014-20 yn y 28 o aelod-wladwriaethau'r UE. Prif ffynhonnell o gyllid i gyflawni newid defnydd tir a gwella ansawdd amgylcheddol (pridd, dŵr, bioamrywiaeth, newid hinsawdd). Graddau camau gweithredu wedi cyfyngu ar yr effeithiau ar yr economi wledig a'r amgylchedd a chamau economaidd-gymdeithasol ddim yn targedu cyflawni amcanion economaidd. Peth cynnydd mewn cyflogaeth wledig – o ran swyddi rhan-amser, achlysurol a thymhorol yn bennaf.
LEADER	Lloegr (Mae holl aelod-wladwriaethau'r UE yn gweithredu rhaglenni LEADER)	Gweithredodd: 2007-13	Mae LEADER wedi gweithredu ar amryw ffurf ers 1991. Fe'i prif-ffrydiwyd i'r rhaglen datblygu gwledig yn 2007-13 a chyflawnodd Fesurau o dan Echelau 1 a 3. Cafodd 4% o gyfanswm cyllideb rhaglen Lloegr, sef £4.445 biliwn, wedi'i rannu rhwng 64 o ardaloedd Grwpiau Gweithredu Lleol.	Cafodd ei gwerthuso fel rhan o'r gwerthusiad ôl-weithredol o raglen Lloegr yn 2015-16. Cyfrannodd at amcanion economaidd-gymdeithasol drwy ganolbwyntio ar gyfran fach o wariant Echelau 1 a 3 ar ardaloedd tiriogaethol y Grwpiau Gweithredu Lleol. Effeithiolrwydd amrywiol yn dibynnu ar y cyd-destun lleol ac effeithiolrwydd y corff rheoli. Gwellodd rhai Grwpiau Gweithredu Lleol gysylltiadau cadwyni cyflenwi (e.e. cynhyrchion coedwigaeth fel coed tân yn

Cymbria); a chefnogwyd microfusnesau i ddatblygu a gwella gwasanaethau lleol (e.e. neuaddau pentref/canolfannau cymunedol)

Grantiau a benthyciadau'r llywodraeth

Mae mathau traddodiadol o gymorth buddsoddi yn cynnwys grantiau a benthyciadau a ddyrennir drwy brosesau gwneud cais cystadleuol. Un enghraifft yw Cronfa Ynni Cymunedau Gwledig sy'n darparu cymorth i gymunedau yn Lloegr ddatblygu asedau ynni lleol. Y nod yw helpu sefydliadau cymunedol i greu asedau cynhyrchu ynni lleol a all naill ai defnyddio'r ynni yn lleol (e.e. gwresogi ardal neu adeilad ar raddfa fach) neu ei werthu er mwyn cynhyrchu incwm i'r gymuned. Dechreuodd y rhaglen yn 2013 a hyd yn hyn mae wedi cefnogi astudiaethau o ddichonolrwydd ynni adnewyddadwy mewn tua 100 o gymunedau. Mae'r cynllun yn cynnig rhaglen gymorth ar ddau gam. Mae'r cam cyntaf yn cynnig grantiau o hyd at £20,000 ar gyfer astudiaethau dichonoldeb, a ddilynir gan fenthyciadau anwarantedig (Cam 2) o hyd at £130,000 i dywys prosiectau drwy'r broses gynllunio. Mae newidiadau ym mholisïau'r llywodraeth sy'n ymwneud â thariffau cyflenwi wedi lleihau'r galw am fenthyciadau Cam 2 yn ddiweddar, oherwydd dichonoldeb economaidd is prosiectau (Ricardo Energy & Environment a CCRI, 2017).

Mae rhaglenni datblygu gwledig yr UE hefyd yn gweithredu drwy ddyrannu cyllid drwy grantiau cystadleuol (ac i raddau llai y defnydd o fenthyciadau). O dan Echelau 1 a 3 o raglen datblygu gwledig 2007-13 Lloegr, er enghraifft, dyfarnwyd cyfanswm o €634 miliwn ar ffurf arian grant i dderbynwyr ar gyfer gweithgarwch datblygu gwledig ehangach (€433 miliwn o dan Echel 1 a €201 miliwn o dan Echel 3; Defra, 2016). Cafodd cyfran o'r arian hwn ei darparu drwy grwpiau LEADER drwy geisiadau cystadleuol o fewn ardaloedd tiriogaethol diffiniedig. Roedd yr arian grant yn gofyn am arian cyfatebol gan y buddiolwr, a oedd yn amrywio rhwng mesurau ond, yn gyffredinol, roedd tua 60% o arian y sector preifat ar gyfer prosiectau buddsoddiad cyfalaf.

Ffynonellau cyfalaf rhanddeiliaid

Mae cyllid rhanddeiliaid yn cynnwys ffynonellau cyllid (annhraddodiadol) sy'n seiliedig ar godi cyfalaf gan y rheini sydd â 'budd yn llwyddiant y prosiect'. Mae ffynonellau cyllid yn rhai lleol yn aml, ac maent yn dod oddi wrth y rheini sy'n rhannu nodau cyffredin fel creu buddiannau cymunedol, neu gallent fod yn rhan o gadwyn gwerth sydd am iddi lwyddo (Wealthworks, 2014). Ymhlith yr enghreifftiau o'r math hwn o ymyriad a nodir yn Nhabl 1 mae: benthyciadau cymunedol, arian araf, a dwy enghraifft o fuddsoddi angel (Bright Star, Wisconsin, ac Angel Financing yng Nghanada).

Slow Money Maine

Mae ‘Slow Money’, Maine yn gweithredu ar raddfa gymharol fach, ac mae'n rhan o fudiad 'arian araf' genedlaethol mwy o faint (Slow Money, 2014) sydd wedi'i chynllunio i gefnogi'r rheini sydd am fuddsoddi'n uniongyrchol er mwyn cefnogi cynhyrchiant bwyd lleol. Cafodd sefydliad Maine ei sefydlu yn 2010 er mwyn cysylltu ffermwyr, pysgotwyr ac entrepreneuriaid bwyd â ffynonellau o gyllid drwy fenthyciadau rhwng cymheiriaid (Slow Money Maine, 2017). Mae unigolion yn gwneud benthyciadau yn uniongyrchol i gynhyrchwyr bwyd drwy gydgysylltwr sy'n cysylltu buddsoddwyr â busnesau systemau bwyd. Nodir bod benthyciadau yn amrywio o $1,500 i $40,000 gyda thelerau amrywiol (fel arfer tua 3-5% o log a chyfnod ad-dalu o 1-3 blynedd). Gwnaeth prosiect Slow Money hefyd sefydlu 'clybiau buddsoddi' i atgyfnerthu economi fwyd leol Maine drwy wneud benthyciadau bach i ffermydd a busnesau bwyd (hyd at $5,000).

Cronfa Benthyciadau Cymunedol Vermont

Mae benthyciadau cymunedol yn gweithredu mewn ffordd fwy traddodiadol ond maent yn darparu cyllid i'r rhai na fyddent fel arfer yn gallu ei gael drwy ffynonellau masnachol neu lywodraethol safonol. Yn UDA, mae dros 1,000 o sefydliadau ariannol datblygu cymunedol, y mae rhai ohonynt yn fanciau neu'n undebau credyd, ond benthyciadau a weithredir ar lefel gymunedol yw'r rhan fwyaf ohonynt (WealthWorks, 2014). Mae Cronfa Benthyciadau Cymunedol Vermont, er enghraifft, yn nodi mai ei nod yw 'provide loan capital to create opportunities that lead to healthy communities and financial stability' (Cronfa Benthyciadau Cymunedol Vermont, 2015).

Ei phrif nod yw cymryd camau seiliedig ar gyfalaf er mwyn helpu i leddfu tlodi. Mae'n targedu busnesau a rhaglenni sy'n helpu cartrefi ar incwm isel i gael gafael ar gartrefi fforddiadwy, swyddi, gofal plant a gwasanaethau cymunedol. Daw'r arian a fenthycir o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys: y gymuned leol ei hun, unigolion a theuluoedd, corfforaethau, sefydliadau, grwpiau ffydd ac eraill. Rhwng 1987 a 2015, gwnaeth y Gronfa fenthyca tua $85 miliwn (mae gan Vermont boblogaeth o tua 625,000 gan gynnwys ardaloedd trefol).

Angel Investing

Mae buddsoddi angel yn weithgarwch diweddar, ond eithaf eang, (ceir gweithgareddau tebyg mewn sawl gwlad arall gan gynnwys y DU), sy'n anelu at gefnogi busnesau ar gamau cynnar tyfu a datblygu. Mae buddsoddwyr angel yn eistedd rhwng y cymorth a roddir gan deulu a ffrindiau, a'r hyn a roddir gan gyfalafwyr menter, ac maent fel arfer yn bobl gefnog (weithiau'n lleol i'r ardal y maent yn buddsoddi ynddi, ond nid bob tro) sy'n darparu cyfalaf i

ddechrau busnes neu ei dyfu ar gam cynnar yn gyfnewid am ecwiti perchenogaeth neu ddyled y gellir ei throsi (WealthWorks, 2014).

Un enghraifft yw Sefydliad BrightStar Wisconsin (Brightstar, 2015), a sefydlwyd yn 2014 gan ganolbwyntio ar greu swyddi. Cafodd y Sefydliad ei greu gan wyth rhoddwr a wnaeth addo $500,000 i gefnogi cronfa o $6 miliwn, a'r bwriad oedd darparu cyfrwng er mwyn helpu i ariannu creu swyddi. Yn Wisconsin, cefnogir 'buddsoddi angel' gan gymhellion credydau treth gan y Dalaith (yn cyfateb i 25% o swm y buddsoddiad ecwiti). Caiff enillion ac elw o fuddsoddi o'r Sefydliad eu hailfuddsoddi, gyda'r nod o hyrwyddo cwmnïau ar gam cynnar sy'n datblygu'n gyflym (a ddiffinnir fel <100 o gyflogeion a <10 oed) yn Winconsin.

Dulliau cymorth unigol

Cyfrifon Datblygu Unigol

Mae Cyfrif Datblygu Unigol yn helpu unigolion i gynilo a buddsoddi. Mae'r rhaglenni hyn i'w cael mewn sawl talaith ledled UDA (gan dargedu trigolion gwledig a threfol), gyda'r nod o 'investing in the personal and financial growth of individuals to build strong communities'. Dynododd adroddiad yn 2007 fod dros 500 o sefydliadau cymunedol, yn cefnogi cyfanswm o 50,000 o gyfrifon unigol mewn 30 o daleithiau gan gynilo dros $14 miliwn i gyd (Cfed, 2007). Mae Cyfrif Datblygu Unigol Oregon yn darparu arian cyfatebol fel cymhelliant i'r rheini sy'n cynilo tuag at nod penodol a bellach nodir mai dyma'r rhaglen fwyaf ei maint a mwyaf llwyddiannus yn UDA (Menter Cyfrif Datblygu Unigol Oregon, 2015). Mae'r rhaglen ond ar gael i'r rheini sy'n bodloni meini prawf incwm isel a chymdeithasol penodol, a chyn derbyn rhywun i'r rhaglen rhaid cael addysg a hyfforddiant cyllidebu ac ariannol. Caiff y fenter ei hariannu drwy gymhelliant credydau treth taleithiol lle gall unigolion a busnesau wneud rhoddion i Fenter Cyfrifon Datblygu Unigol Oregon drwy 'Neighborhood Partnerships', sefydliad nid er elw. Mae'r rhoddion yn cynhyrchu'r cyllid sylfaenol i gyfateb i gynilion y sawl â Chyfrifon Datblygu Unigol. Yn 2012, cyfrannwyd cyfanswm o $10 miliwn i gefnogi'r rhaglen, gan awgrymu cryn gynnydd mewn cefnogaeth i'r math hwn o ymyriad dros y cyfnod pum mlynedd o 2007.

Effeithiolrwydd Ymyriadau

Mae'n anodd pennu costeffeithiolrwydd llawer o'r rhaglenni a gweithgareddau a nodir am mai ychydig o werthusiadau annibynnol sydd wedi'u cynnal, a phrin yw'r wybodaeth am wariant rhaglenni. Daw'r dystiolaeth yn yr adran hon o'r gwerthusiadau, adroddiadau blynyddol, adolygiadau mewnol, a gwybodaeth o wefannau sefydliadol sydd ar gael.

Rhaglenni datblygu mawr ledled ardal

Mae rhaglenni datblygu economaidd gwledig mawr ledled ardal yn fentrau strategol hirdymor cymhleth, sy'n cynnwys sawl sefydliad ac unigolyn ac yn ymgorffori ystod eang o ymyriadau unigol ond wedi'u cydgysylltu sy'n anelu at gyflawni nodau clir. Mae traddodiad hir o raglenni datblygu ardal gyfan neu ranbarthol i gefnogi datblygu economaidd mewn rhai o'r rhannau gwledig tlotaf o UDA. Ymhlith yr enghreifftiau mae Comisiwn Datblygu'r Appalachiaid, a sefydlwyd yn y 1960au, ac yn fwy diweddar Comisiwn Denali (1998), awdurdod rhanbarthol Delta (2000), ac Awdurdod Rhanbarthol Gwastadeddau Mawr y Gogledd (2008) (Pender, et al., 2012). Maent yn gofyn am symiau sylweddol o ewyllys gwleidyddol, cyfranogiad rhanddeiliaid, a chefnogaeth er mwyn llwyddo, ond gallant arwain at newid strwythurol neu systemig ar draws rhanbarth eang, a all newid ymddygiad sylfaenol dros amser.

‘Strengthening Economic development in rural communities’ gan The Duke Endowment

Mae rhaglen The Duke Endowment (‘Strengthening Economic development in rural communities’) yn dangos rhai o'r anawsterau sydd ynghlwm wrth ymgymryd â gweithgarwch datblygu gwledig ar raddfa fawr. Nododd y gwerthusiad o'r rhaglen gyfanswm o 229 o fusnesau bach newydd (gyda 453 o swyddi newydd yn cael eu creu) a 455 o 'arweinwyr newydd' yn cael eu hyfforddi ym maes datblygu economaidd, yn seiliedig ar fuddsoddiad o $11.7 miliwn (yn ogystal â $6.6 miliwn ychwanegol a drosolwyd i'w fuddsoddi mewn gwaith adnewyddu economaidd). Fodd bynnag, dim ond traean o'r hyfforddeion a gafodd waith ac nid oedd fawr ddim gwybodaeth am y math o swyddi dan sylw, na'u haddasrwydd na'u cynaliadwyedd (Cronfa Duke Endowment, 2009 a 2017). Dylanwadodd cyd-destun ehangach y dirwasgiad economaidd cenedlaethol ar ganlyniadau'r rhaglen, ond mae'r gwerthusiad yn awgrymu mai prin y cyflawnwyd datblygu economaidd parhaol yn yr ardal darged, o ystyried y lefel o wariant.

‘Farm-to-Plate’ yn Vermont

Ymddengys fod 'Farm-to-Plate' yn Vermont yn fwy llwyddiannus, gan efallai ddynodi dull cyfranogol ac iddo fwy o ffocws o bennu amcanion y rhaglen (18 mis o ymgynghori a datblygu), gan adeiladu ar sail amaethyddol bwysig y dalaith. Mae data o adroddiadau blynyddol yn awgrymu bod swyddi newydd net yn system fwyd Vermont wedi cynyddu 6% (3,486 o swyddi) rhwng 2009 a 2013, gan gynnwys 1,500 o swyddi gweithgynhyrchu, tra cynyddodd ffermydd a busnesau fferm 6%. Amcangyfrifir bod ehangu'r system fwyd leol wedi cynyddu'r cynnyrch taleithiol gros $747.1 miliwn.

Mae'n anodd nodi lefel y gwariant am fod adroddiadau blynyddol yn awgrymu y cafwyd buddsoddiadau o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys:

- $2 filiwn (o Gronfa Menter Working Lands) a fuddsoddwyd mewn mentrau fferm a bwyd, coedwigaeth a chynhyrchion pren a rhaglenni cymorth technegol;
- $5.8 miliwn (o Rwydwaith Arianwyr Bwyd Vermont) a fuddsoddwyd mewn grantiau (yn bennaf ar gyfer diogelwch bwyd);
- $73 miliwn a fuddsoddwyd yn sector bwyd Vermont o amrywiaeth o ffynonellau gwahanol.

Ymddengys ei bod yn costio tua $600,000 y flwyddyn i weinyddu'r rhaglen. Mae adroddiad blynyddol 2015-16 (Annual Report Year 6: Fiscal 2016 **www.vtfarmtoplate.com**) yn dynodi bod gwariant yn talu am bersonél, rhedeg cyfarfodydd a gweithdai, ymgyrchu, a gwefan, gyda thua hanner yr arian yn mynd i gefnogi'r prosiect). Roedd incwm blynyddol (yn 2016) yn $638,000 gyda 60% yn dod o sefydliadau preifat, 25% o'r llywodraeth daleithiol, a'r gweddill o nawdd, cyfraniadau a ffioedd cofrestru.

Rhaglenni datblygu gwledig yr UE (gan gynnwys LEADER)

Mae rhaglenni datblygu gwledig yr UE yn amrywio'n fawr o un wlad i'r llall ac yn mynd i'r afael â gwahanol gyd-destunau a phroblemau. Mae cylchoedd diweddar o wariant rhaglen datblygu gwledig yr UE yn Lloegr wedi canolbwyntio ar welliannau amgylcheddol drwy gytundebau amaeth-amgylcheddol â ffermwyr a thirfeddianwyr. Defnyddiodd y gwerthusiad ôl-weithredol ddadansoddiad Elw Cymdeithasol o Fuddsoddi (SROI) er mwyn asesu ei heffeithiau. Amcangyfrifodd, dros gyfnod chwe mlynedd y rhaglen, fod tua 8,500 o fusnesau fferm wedi cael budd o gymorth grant Echel 1 (tua 15.4% o gyfanswm Lloegr), tra cafodd ychydig yn llai o'r 6,000 o ficrofusnesau gwledig (1.75% o'r cyfanswm) ryw fath o gymorth o dan Echel 3.

Er i fodel SROI ddynodi enillion cadarnhaol ar y buddsoddiad grant i'r ddau Echel (h.y. elfen arian cyhoeddus y buddsoddiadau), dynododd rhai elfennau o Echel 1 ac Echel 3 gyfradd enillion negyddol pan ystyriwyd buddsoddiad gan y sector cyhoeddus a'r sector preifat gyda'i gilydd.

Nododd y gwerthusiad (Defra, 2016) fod cyfraniad rhaglen datblygu gwledig Lloegr at dwf yr economi wledig a chyflogaeth yn '…limited by the scale of actions and the fact that socio-economic measures were not solely directed towards economic objectives'. Er enghraifft, gwnaeth rhai o Fesurau Echel 1 ganolbwyntio ar effeithlonrwydd y defnydd o adnoddau, gwella iechyd anifeiliaid, a lles ar y fferm er mwyn gwneud ffermydd yn fwy cystadleuol. Gwnaeth Mesurau Echel 3 ddarparu ar gyfer mwy o gyflogaeth drwy arallgyfeirio economaidd ond, gan fwyaf, ar ffurf swyddi rhan-amser, achlysurol a thymhorol. Gwnaeth y gwerthusiad hefyd nodi bod dangosyddion sylfaenol ar gyfer twf economaidd, creu swyddi, a

chynhyrchiant llafur wedi cynyddu dros gyfnod y rhaglen, '…the absolute magnitude of the effects for Axis 1…and Axis 3… is modest relative to the size of the rural economy and of the agricultural and forestry sectors…and there was an element of deadweight associated with business support…'

Nododd model SROI, ar gyfer y gwahanol ganlyniadau a archwiliwyd o dan Echelau 1 a 3, fod sgoriau pwysau marw yn amrywio o 10% i 32% ar gyfer agweddau amrywiol ar Fesurau Echel 1, ac o 23% i 50% ar gyfer canlyniadau yn deillio o Fesurau Echel 3, gan awgrymu y gellid bod wedi gweld swm sylweddol o ganlyniadau heb y cymorth grant.

Ni allai'r gwerthusiad asesu hyd posibl effeithiau y tu hwnt i'r cyfnod cyllido, na ph'un a fu'r buddsoddiadau mewn ardaloedd gwledig yn ddigon mawr i gael effaith barhaol ar economïau gwledig (Defra, 2016). Yn gyffredinol, amcangyfrifodd y gallai twf economaidd fod wedi cynyddu tua 3-5% o dwf GYG gwirioneddol cyffredinol mewn ardaloedd gwledig rhwng 2010 a 2015, bod swyddi wedi cynyddu 11,000, a bod cynhyrchiant llafur wedi cynyddu £13,000 (neu 25% o GYG gros) wedi'i rannu rhwng costau is ac allbynnau uwch – yn bennaf o ganlyniad i fuddsoddi mewn technolegau a phrosesau.

Ffynonellau cyfalaf rhanddeiliaid

Angel Investing

Ymddengys fod 'buddsoddi angel', sef dull o drosoli cyllid o'r sector preifat i'w fuddsoddi mewn twf economaidd risg uwch mewn ardaloedd gwledig (lle nad yw'r sector bancio masnachol yn barod i weithredu), wedi cael peth llwyddiant yng Nghanada ac UDA lle ceir cymhellion treth sylweddol. Er enghraifft, ym mis Rhagfyr 2015, ar ôl 18 mis o weithredu, nodwyd bod portffolio BrightStar yn cynnwys cyfanswm o $7.8 miliwn o asedau gyda Buddsoddiadau Portffolio o $3,814,233 mewn 14 o gwmnïau a chyfanswm o 66 o swyddi wedi'u creu o ganlyniad i fuddsoddi. Flwyddyn yn ddiweddarach, dynododd yr adroddiad blynyddol fuddsoddiad mewn cyfanswm o 32 o gwmnïau (Brightstar, 2015 a 2016) gan awgrymu twf cyflym mewn lefelau buddsoddi mewn un dalaith (Wisconsin). Cafwyd gweithgarwch mwy cyfyngedig yn y DU (gan gynnwys Cymru) lle rhoddir llai o bwyslais ar fuddsoddi gwledig ac mae'r cymhellion treth yn llai deniadol (rhyddhad treth y Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau (EIS) a'r Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau (SEIS)). Serch hynny, mae buddsoddi angel yn fodd i gau'r bwlch rhwng cymorth lleol gan y teulu a chyfalaf menter, sy'n dueddol o ddigwydd pan fydd cwmnïau yn fwy o faint ac wedi datblygu'n fwy.

Mae gweithgarwch buddsoddi angel yn UDA a Chanada yn awgrymu rôl ar gyfer rhyw fath o fenthyciadau cylchol wrth gefnogi datblygiad mentrau gwledig, yn enwedig gweithgarwch busnes llai a all beri mwy o risg. Gall arian o'r fath fod yn wasanaeth hanfodol wrth fuddsoddi mewn ardaloedd lle mae benthycwyr masnachol ofn troedio, a/neu lle ystyrir bod gweithgareddau yn rhy fach gan gyfalafwyr menter. Mae'r dystiolaeth o UDA a Chanada

(mewn ardaloedd fel Wisconsin) yn awgrymu y gall 'buddsoddi angel' chwarae rôl hanfodol wrth annog datblygu economaidd a thwf i lefelau sy'n dod yn fwy deniadol i fenthycwyr masnachol a chyfalaf menter (h.y. cefnogi datblygiad a thwf microfusnesau a busnesau bach a chanolig, er enghraifft, galluogi datblygu gweithgareddau prosesu bwyd). Mae cwestiynau ynghylch i ba raddau y gellid ailadrodd llwyddiant mewn rhywle fel Wisconsin yng Nghymru, lle gallai fod yn fwy anodd dod o hyd i roddwyr sy'n barod i ymwneud â buddsoddiadau risg uchel. Fodd bynnag, gallai darparu cyngor a hyfforddiant arwain at gyllid posibl, gan fod gweithgarwch yng Nghanada wedi awgrymu y gall hyfforddi buddsoddwyr, hwyluso gweithgarwch a rhwydweithiau cymorth wneud buddsoddi angel yn fwy effeithiol (Wilson, 2013).

Arian Araf

Mae Arian Araf, sy'n seiliedig ar fenthyciadau rhwng cymheiriaid, yn fodd i ddatblygu economïau lleol ar raddfa fach (o gymharu â buddsoddi angel). Mae'n gofyn i hwyluswyr gysylltu entrepreneuriaid â busnesau sydd am ddechrau neu dyfu. Gwnaeth Slow Money Maine, er enghraifft, ddyfarnu $1.9 miliwn mewn benthyciadau, $1.5 miliwn mewn grantiau, a $0.6 miliwn mewn ecwiti rhwng 2010 a 2016. Dyrannwyd yr arian fel a ganlyn: aeth $505,000 i ffermydd a busnesau bwyd bach; $2.6 miliwn i brosesu bwyd; a $900,000 i ddiogelu ffermdir (Slow Money Maine, 2017). Nid yw costau gweithredol yn dryloyw, er bod yr adroddiadau blynyddol yn awgrymu eu bod yn cymharol isel, gan ddibynnu ar fewnbwn gwirfoddol i helpu i bennu dichonoldeb dyfarnu benthyciadau. Er bod y symiau yn gymharol fach, gallant gael effaith sylweddol ar dderbynwyr, na allant efallai fenthyca arian o ffynonellau mwy traddodiadol, ac ar economi leol ardaloedd gwledig o ran cefnogi datblygiad busnesau bach.

Mae Slow Money yn debyg mewn rhai ffyrdd i gymorth datblygu math LEADER yr UE, er bod y rhan fwyaf o'r arian ar ffurf benthyciadau llog isel, byrdymor a chyfranddaliadau ecwiti, ac nid grantiau. Mae'r budd yn sail economaidd fwy cadarn a cheir cyfradd fethu is am fod mwy o graffu ar y mentrau hynny a gaiff arian. Y broblem gydag Arian Araf a chyllid math LEADER o ran datblygu busnesau bach yw sicrhau bod y busnesau a gefnogir wedi'u cysylltu'n gadarn â sail economaidd iach. Mae'n annhebygol y caiff cymorth gwasgaredig i ddatblygu ychydig o ficrofusnesau fawr o effaith hirdymor ar gyfoeth, cyflogaeth nac economi wledig ardal.

Dulliau cymorth unigol

Cyfrifon Datblygu Unigol

Mae gan gymorth uniongyrchol i unigolion, fel drwy gyfrifon datblygu unigol Oregon, gyfradd lwyddo gymharol uchel wrth gael cartrefi allan o dlodi. Mae'r dull hwn o weithredu yn helpu

unigolion i gynilo, ar gyfer ystod eang o weithgareddau gan gynnwys: addysg, prynu cerbydau, a gwella tai. Gweithredir y cynllun gan y dalaith ac mae ganddo feini prawf dethol eithaf llym (e.e. yr angen i fod yn gweithio), a gofynion hyfforddiant cyllidebol, ond mae cymhellion mawr i helpu'r rhai a dderbynnir ar y cynllun i gyflawni eu targedau cynilo.

Mae gwerthusiad diweddar o'r rhaglen rhwng 2013 a 2016 yn awgrymu bod nifer sylweddol wedi cael budd (Stuczynski a Stauss, 2017), gyda mwy na 4,000 o drigolion yn agor cyfrifon a 2,642 yn cyflawni eu targedau cynilo. Gwnaeth pob unigolyn a gymerodd ran gynilo $2,183 ar gyfartaledd (h.y. cyfanswm o $5.8 miliwn o gynilion) a chyda'r arian cyfatebol darparwyd cyfanswm o $16.3 miliwn i aelodau'r cynllun. Nododd y gwerthusiad fod y sawl a gymerodd ran wedi cyfeirio at newidiadau sylweddol mewn gwybodaeth ac ymddygiad ariannol, gyda chynnydd yng nghyfran y cyfranogwyr sy'n defnyddio cyllideb, yn cadw arian wrth gefn, neu'n cynilo'n rheolaidd. Hefyd, flwyddyn ar ôl gadael y rhaglen, dywed yr unigolion fod eu hased (a brynwyd gyda'r cynilion) wedi dod â mwy o sefydlogrwydd i'w cartref, ac wedi cynyddu eu hyder yn eu gallu i sefydlu a chyflawni nodau hirdymor (Stuczynski a Stauss, 2017).

Mae'r gwerthusiad o raglen Cyfrif Datblygu Unigol Oregon yn awgrymu bod y buddiannau'n lluosog ac yn barhaol, canfyddiad a gefnogir gan dystiolaeth o raglenni o'r fath eraill mewn taleithiau fel Iowa (Brigham a Fisher, 2011). Hefyd mae o leiaf un rhaglen sy'n targedu ffermwyr yn benodol. Mae California FarmLink yn darparu arian cyfatebol (3:1) i ffermwyr sy'n cynilo $100 y mis am 24 mis gan arwain at arbed $9,600 pan gaiff yr arian cyfatebol ei ychwanegu at yr hyn maent wedi'i gynilo. Mae'r un adroddiad (California FarmLink, 2014) yn nodi rhaglen yn Michigan lle mai'r nod o ran cynilion Cyfrif Datblygu Unigol yw gwarantu benthyciad er mwyn galluogi ffermwyr i gael gafael ar gyllid.

Goblygiadau Polisi

Mae'r enghreifftiau a geir yn yr adroddiad hwn yn cwmpasu amrywiaeth o ddulliau o gefnogi datblygiad economïau gwledig - o raglen datblygu gwledig aml-wlad yr UE, i ficrogyllid mentrau drwy fenthyciadau rhwng cymheiriaid i gymhellion i unigolion gynilo a gwella eu rheolaeth ariannol. Mae sawl ymyriad i wella economïau gwledig a gostwng lefelau tlodi sydd wedi'i dreialu ond ychydig iawn a werthuswyd yn llawn. Felly, canolbwyntiodd yr adroddiad hwn ar ganfyddiadau tua 10 o ymyriadau economaidd, yn amrywio o'r lefel facro i ficro, lle ceir peth tystiolaeth ddibynadwy.

Rhaglenni datblygu mawr ledled ardal

Cymysg fu llwyddiant rhaglenni datblygu economaidd gwledig mawr ledled ardal. Mae tystiolaeth y gallant gyflawni newid strwythurol neu systemig os oes rhanddeiliaid yn cymryd rhan drwyddi draw a bod partneriaethau effeithiol ar waith, a'u bod yn cynnwys ystod eang o

fentrau unigol sydd wedi'u cydgysylltu i gyflawni nodau penodol. Fodd bynnag, maent yn gofyn am symiau sylweddol o gyllid, ewyllys gwleidyddol a chyfranogiad rhanddeiliaid er mwyn llwyddo.

Dengys y dystiolaeth o rai o'r mentrau a archwilir yn yr adroddiad hwn bwysigrwydd y canlynol:

- Ymchwiliad manwl i'r sefyllfa bresennol o ran cynhyrchu bwyd a'r economi wledig;
- Datblygiad strategaeth hirdymor (10-15 mlynedd) yn seiliedig ar agenda gyffredin gydag amcanion clir a chytûn;
- Cysylltu datblygu economaidd gwledig (h.y. cynhyrchu a phrosesu bwyd ac adnoddau naturiol) â chreu swyddi a hyrwyddo a marchnata cynhyrchion;
- Creu set gytûn o amcanion, y mae gan bob un set glir o ddangosyddion gweithredu i asesu cynnydd, a gweithgareddau sy'n atgyfnerthu ei gilydd;
- Cymorth gweinyddol gan amrywiaeth o sefydliadau yn cydweithio;
- Corff cyflawni cynhwysol, tryloyw ac atebol a lywir gan feddylfryd systemau.

Mae gan Gymru brofiad o raglenni datblygu gwledig mawr yr UE eisoes. Gall ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd gynnig cyfleoedd i ddatblygu rhaglenni cenedlaethol sydd wedi'u teilwra'n fwy. Pan na fydd cymorthdaliadau amaethyddol na chyllid datblygu gwledig yr UE ar gael mwyach, gallai Cymru ddatblygu rhaglen datblygu gwledig sy'n integreiddio cymorth rhwng sectorau ac ar sawl lefel. Ar lefel facro, gallai rhaglen yn seiliedig ar fodel Farm-to-Plate Vermont ganolbwyntio ar gryfhau gweithgarwch prosesu bwyd a chadwyni cyflenwi, o gynhyrchwyr i'r farchnad, ar lefel strategol, gan greu amodau sy'n cynyddu'r galw am fuddsoddiad.

Bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod strategaeth economaidd wledig y dyfodol yn sicrhau cefnogaeth eang rhanddeiliaid, a chytundeb ynghylch amrywiaeth o fentrau a wnaiff gyflawni'r nodau strategol dros gyfnod penodol o amser. Gall fod am ystyried mabwysiadu dull strategol integredig o gyflawni datblygiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ardaloedd gwledig a'r sector amaethyddol (gan gynnwys pysgodfeydd a choedwigaeth).

Buddsoddi angel

Petai rhaglen datblygu fawr yn cyd-fynd â chymorth buddsoddi, er enghraifft drwy ddulliau a gefnogir gan y llywodraeth o ategu buddsoddiadau bach (e.e. benthyciadau arian araf rhwng cymheiriaid) a buddsoddiadau angel (buddsoddiad mawr risg uchel), yna gallai Cymru fod yn hynod effeithiol wrth gynhyrchu cyfoeth gwledig drwy fuddsoddiadau strategol.

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod modelau cyllid hyblyg hefyd yn bwysig i fentrau bach, a all dargedu busnesau, ardaloedd neu unigolion. Mae llwyddiant buddsoddi angel yn UDA a Chanada yn dangos y gall gau'r bwlch rhwng cymorth gan y teulu a chyfalaf menter ar gyfer busnesau yr ystyrir eu bod yn rhy fach neu neu'n peri gormod o risg gan fenthycwyr

masnachol. Mae buddsoddi angel eisoes wedi'i ategu gan ryddhad treth o fewn system ariannol y DU (Ranscombe, 2016), ond mae angen mwy o gymorth i feithrin gallu ac adnoddau gan bob lefel o'r llywodraeth er mwyn nodi a hyfforddi buddsoddwyr.

Mae'n werth ystyried dulliau eraill o greu benthyciadau cylchol sydd â digon o sail gyfalaf i gynnal lefel ddichonadwy o fenthyciadau a buddsoddiadau ecwiti ym maes datblygu economaidd gwledig. Gall, er enghraifft, fod yn bosibl creu cronfeydd bach ar lefel gymunedol neu aml-gymunedol yn seiliedig ar gredydau/cymhellion ardrethi busnes lleol a all wedyn gael eu defnyddio mewn ardaloedd diffiniedig i gefnogi twf a datblygiad busnesau (OECD, 2011).

Gall Arian Araf helpu i gefnogi twf a datblygiad microfusnesau yng Nghymru. Gallai sefydlu cymorth cynaliadwy a chadarn ofyn am gefnogaeth y wladwriaeth i gynnal risg, a chymorth hwyluso drwy addysg, meithrin gallu ac adnoddau a helpu i weinyddu cynlluniau.

Ymddengys fod cefnogaeth y llywodraeth i adeiladu asedau cymunedol yn gyfyngedig ond mae Cronfa Ynni Adnewyddadwy Cymunedau Gwledig Lloegr wedi bod yn llwyddiannus wrth helpu cymunedau gwledig i gynnal astudiaethau dichonoldeb a thywys cynigion prosiect drwy'r system gynllunio drwy gyfuniad o grantiau a benthyciadau (ceir hefyd Gronfa Ynni Gymunedol Drefol sy'n gwneud yr un peth i ardaloedd trefol). Mae dadansoddiad cost a budd yn awgrymu elw cadarnhaol o fuddsoddi ac ystyrir bod y Gronfa yn ffordd werthfawr o gefnogi cymunedau i ddatblygu asedau sy'n cynhyrchu incwm. (Ricardo Energy & Environment a CCRI, 2017)

Cyfrifon Datblygu Unigol

Ar raddfa fach, gallai Cyfrifon Datblygu Unigol gynnig ffordd o helpu rhai cartrefi allan o dlodi, tra hefyd yn cyfrannu at greu twf economaidd lleol. Mae llwyddiant cynllun Oregon yn awgrymu y gallant helpu i fynd i'r afael â thlodi, lefelau isel o addysg a sgiliau, a diffyg cyfleoedd economaidd yn lleol.

Caiff cartrefi a theuluoedd sy'n cwblhau rhaglen gynilo lawer o fuddiannau sy'n gysylltiedig â chymhellion a hyfforddiant gofynnol ym maes cyllid personol a rheolaeth gyllidebol. Un fantais fawr yw gallu unigolion i ddewis amcanion personol, sy'n cynyddu'r awydd i lwyddo, a gall arwain at weithgarwch entrepreneuraidd, a/neu wella lefelau addysg a sgiliau (mae'r rhaglen yn cynnig cryn hyblygrwydd o ran y nodau posibl), gan arwain at well cyfleoedd cyflogaeth.

Gall teuluoedd unigol gael eu cefnogi mewn ffyrdd a dargedir, a allai gynyddu lefelau sgiliau. Yn dibynnu ar feini prawf sefydlu cyfrifon datblygu, gall cymorth o'r fath hefyd gael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â phroblemau gwledig penodol fel trafnidiaeth wael a darpariaeth gofal plant. Gallai dulliau gweithredu o'r fath ddal dychymyg y cyhoedd, a dangos cefnogaeth eang i'r sawl sy'n byw ar y cyrion economaidd mewn ardaloedd gwledig. Gallant fod yn bwysig i'r rhai a dderbynnir ar gynlluniau o ran y cymorth ariannol a'r hyfforddiant a

roddir, ond hefyd fel arwydd amlwg i eraill o'r cymorth y mae'r wladwriaeth yn ei roi i unigolion sy'n ceisio cyflawni targedau cynilo, ac i'r rhai sy'n gwneud ymdrech i lwyddo.

Er na fydd yn bosibl efallai seilio cynllun o'r fath ar gredydau treth, gall fod opsiynau eraill i greu cronfa benthyciadau (e.e. defnyddio ffynonellau dyngarol, gwerthu bondiau). Mewn economi sy'n tyfu (lle mae cyflogaeth neu ffynhonnell incwm i gynilo yn bosibl) y mae cynllun o'r fath yn gweithio orau ond gall cymhelliant cyflawni nodau personol fod yn ysgogiad mawr i weithredu. Gallai hefyd fod yn atyniadol am ei fod ar gael i holl drigolion gwledig ardal sy'n bodloni'r meini prawf dynodedig, neu fod wedi'i dargedu at ardaloedd penodol a/neu sectorau o'r boblogaeth (e.e. ffermwyr bach).

Yr angen am ddulliau integredig o ddatblygu'r economi wledig

Gwers gyffredinol o'r ymyriadau a archwilir yn yr adroddiad hwn, a'r adroddiadau sy'n cyd-fynd ag ef, yw'r angen am ddull strategol o fynd i'r afael â thlodi gwledig. Mae'r hyn sy'n achosi tlodi gwledig yn gymhleth ac yn rhyng-gysylltiedig. O ganlyniad, nid yw'n debygol y bydd mabwysiadu ymyriadau unigol ar eu pen eu hunain yn cael llawer o effaith. Mae angen i lunwyr polisi hyrwyddo strategaethau sy'n cyfuno mentrau i annog twf busnesau â chymorth i unigolion sicrhau'r gwasanaethau a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael gwaith a chamu ymlaen mewn gyrfa, ac integreiddio'r rhain â chamau i fynd i'r afael â heriau eraill gan gynnwys cael mynediad i drafnidiaeth, gwasanaethau cyhoeddus a thai fforddiadwy.

Cyfeiriadau

Brigham, C. a Fisher, P. (2011) **Executive Summary: The Social Benefits of Individual Development Accounts.** The Iowa Policy Project, **www.IowaPolicyProject.org**

Brightstar (2015) **Job creation through capital donation: Brightstar Wisconsin 2015 Annual Report.** **http://www.brightstarwi.org/** a **http://www.brightstarwi.org/files/2015%20Annual%20Report.pdf**

California FarmLink (2014) **A guide to developing and operating an agricultural individual development account (IDA) program**. Expanding the Agricultural IDA Model: A Multi-State Collaborative Developing Asset Building for Beginning Farmers and Ranchers 2011 – 2014. California FarmLink, **www.cafarmlink.org**

Cfed (2007) **Individual development accounts: providing opportunities to build assets.** **www.cfed.org**

Cronfa Benthyciadau Cymunedol Vermont (2015) **Annual Report to the Community**. Montpelier, Vermont. **http://www.investinvermont.org/images/stories/docs/vclfchildcarelendingprogramassessment.pdf**

Cronfa Duke Endowment. (2009) **Thriving Rural Communities: Programme Report.** **http://dukeendowment.org/program-areas/rural-church**

Cronfa Duke Endowment. (2017) **Strengthening economic development in rural communities.** **http://dukeendowment.org/our-work/strengthening-economic-development-in-rural-communities**. Cyrchwyd 8 Chwefror 2017

Defra (2016). **Ex-Post Evaluation of the Rural Development Programme for England (RDPE) 2007-2013.** ADAS UK Ltd mewn partneriaeth â CCRI (Prifysgol Swydd Gaerloyw), Fera Science Ltd a Pareto Consulting. Adroddiad nas cyhoeddwyd a gyflwynwyd i Defra ar 9 Rhagfyr 2016.

Dimitri, C., Effland, A. a Conklin, N. (2005) **The 20th Century Transformation of U.S. Agriculture and Farm Policy.** Gwasanaeth Ymchwil Economaidd USDA, Bwletin Gwybodaeth Economaidd Rhif 3. **www.ers.usda.gov**

English, J. (2016) **Slow Money Maine Catalyzes Maine's Emerging Regenerative Food Economy.** Cymdeithas Garddwyr a Ffermwyr Organig Maine. **http://www.mofga.org/Publications/MaineOrganicFarmerGardener/Summer2016/SlowMoneyMaine/tabid/3169/Default.aspx**

Farm-to-Plate Vermont (2016) **Annual Report Year 6: Fiscal 2016.** Cyrchwyd 8 Chwefror 2017 **www.vtfarmtoplate.com**

Geller, J. a K. Simms. (2016) **Social Impact Report 2015-16: Street UK.** Street UK, Birmingham.

Griffiths, E., Grieve, J., Nolan, A., Ellis, C., ac E. Gough (2013) **Evaluation of Axes 3 & 4 of the Rural Development Plan for Wales 2007-2013.** Adroddiad i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, Rhif y contract: C255/2008/09, Paratowyd gan: Wavehill Ltd, CLES a The Rural Development Company.

LINC Scotland. **The Scottish Angel Capital Association.** **http://lincscot.co.uk/**

Menter Cyfrifon Datblygu Unigol Oregon (2013) **Building Pathways to Prosperity: Taflen Ffeithiau.** **www.oregonidainitiative.org.**

Menter Cyfrifon Datblygu Unigol Oregon (2015) **Annual Report.** **www.oregonidainitiative.org.**

New Economics Foundation (2004) **Lessons from Experience: An Evaluation of Street**. Nef, Llundain.

OECD (2011) **Financing High-Growth Firms: The Role of Angel Investors.** OECD Publishing, Paris. **http://doi.org/10.1787/9789264118782**

Pender, J., Marré, A., a Reeder, R. (2012) **Rural Wealth Creation: Concepts, Strategies, and Measures.** Gwasanaeth Ymchwil Economaidd USDA, Adroddiad Ymchwil Economaidd Rhif 131.

Prifysgol Sheffield Hallam (2014) **Evaluation of Talent Match Programme: Annual Report**. Y Ganolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Ranbarthol.

Ranscombe, P. (2016) **What is an angel investor and how do they operate in Scotland?** **http://www.scotsman.com/news/what-is-an-angel-investor-and-how-do-they-operate-in-scotland-1-4248539**

Ricardo Energy & Environment a CCRI (2017) **Monitoring & evaluation of the Rural Community Renewable Energy Fund.** Adroddiad nas cyhoeddwyd i Defra, Chwefror 2017.

Rhaglen Rhwydwaith Angel (ANP) (2017) **http://www.nao-ontario.ca/angel-network-program-anp/**

Rhwydwaith Farm-to-Plate Vermont (2017) **Case Study: Vermont organizations work to achieve collective impact and transform a food system.** Cyrchwyd 8 Chwefror 2017

http://www.vtfarmtoplate.com/uploads/Case%20Study%20-%20Vermont%20Farm%20to%20Plate%20Network.pdf

Schuh, B., Gorny, H., Kaucic, J., Kirchmayr-Novak, S., Vigani, M., Powell, J. a Hawketts, E. (2016) **Research for AGRI Committee: The role of the EU's Common Agricultural Policy in creating rural jobs.** Senedd Ewrop, y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros bolisïau mewnol, Adran Bolisi B: Polisïau Strwythurol a Chydlyniant. **http://www.europarl.europa.eu/RegData/etudes/STUD/2016/573418/IPOL_STU(2016)573418_EN.pdf**

Slow Money (2014) **Investing in Small Food Enterprises: State of the sector report.** **http://ek4t.com/wp-content/uploads/2014/11/Slow-Money-State-of-the-Sector-Report.pdf**

Slow Money Maine (2017) **http://www.slowmoneymaine.org/contact/#sthash.ObbeALA7.lQGaTQ7Z.dpbs**

Stuczynski, A, a Stauss, E. (2017) **Oregon's Individual Development Account (IDA) Initiative Building a Resilient Oregon through Savings and Assets: Evaluation Report**. Neighborhood Partnerships.

Terluin, I. (2003) **Differences in economic development in rural regions of advanced countries: an overview and critical analysis of theories.** J. of Rural Studies 19:3, tt. 327-344.

WealthWorks (2014) **Enterprise financing for WealthWorks value chains: Overview and guide**. Menter WealthWorks, **www.WealthWorks.org**

Wilson, Karen. (2013) **Financing for Innovative Young Firms and the Role of Policy.** Cyflwyniad i UNCTAD, 5ed sesiwn y Comisiwn Buddsoddi, Datblygu a Mentergarwch, 1 Mai 2013 Genefa. **http://unctad.org/meetings/en/Presentation/cii2013_p05_KWilson_en.pdf**

Y Gronfa Loteri Fawr. (2017) **Talent Match.** **https://www.biglotteryfund.org.uk/talentmatch**

Yatchmenoff, D., Kothari, B., Webb, S., a Stauss, E. (2014) **Oregon Individual Development Account Initiative: Evaluation Report Summary**. Prifysgol Talaith Portland.

Atodiad 1 – Rhagor o Wybodaeth am Ymyriadau Economaidd

Rhaglen Datblygu Gwledig Lloegr 2007-13

Er nad yw'n targedu tlodi gwledig yn uniongyrchol, mae aelod-wladwriaethau'r UE wedi cael sawl cylch o Raglenni Datblygu Gwledig (Colofn II o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin), sydd, ymhlith nodau eraill, wedi targedu gwelliannau yn yr economi wledig drwy arallgyfeirio gweithgarwch amaethyddol, a gwella gwasanaethau cymunedol ac ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig. Hefyd, cafodd rhaglenni LEADER, a oedd yn canolbwyntio ar wella agweddau cymdeithasol ac economaidd ar ardaloedd gwledig wedi'u targedu, eu cyflwyno drwy Raglenni Datblygu Gwledig cenedlaethol a rhanbarthol. Bu'r broses o gyflwyno LEADER yn wahanol iawn o fewn a rhwng Aelod-wladwriaethau ond gwnaeth ganolbwyntio'n bennaf ar gefnogi microfusnesau a busnesau bach a chanolig ar raddfa fach, ynghyd â chefnogi cymunedau, o fewn ardaloedd tiriogaethol diffiniedig drwy arian cyfatebol. Gwnaeth y gwerthusiad ôl-weithredol diweddar (Defra, 2016) o raglen datblygu gwledig Lloegr 2007-13 gymhwyso dull gweithredu Elw Cymdeithasol o Fuddsoddi gan nodi y gallai buddsoddiadau bach gael effeithiau cymdeithasol mawr ar gymunedau gwledig. Datgelodd y gwerthusiad y canlynol:

- Roedd gwariant gwirioneddol rhaglen datblygu gwledig Lloegr yn cyfateb i €4,445 miliwn rhwng 2007 a 2013, gyda 79% yn mynd yn bennaf tuag at gefnogi cytundebau amaeth-amgylcheddol o dan Echel, a 7.5% ar arallgyfeirio gwledig a LEADER.
- Prin y gwnaeth ymyriadau rhaglen datblygu gwledig Lloegr greu swyddi a'u diogelu, er y cafwyd mwy o swyddi rhan amser, achlysurol a thymhorol na swyddi llawn amser. Nododd y gwerthusiad, o dan raglen LEADER, y cafodd 3,806 o swyddi eu creu ac y cafodd 3,313 o swyddi eu diogelu (59 a 51 o swyddi ar gyfartaledd fesul Grŵp Gweithredu Lleol yn y drefn honno) dros gyfnod o saith mlynedd. Nid yw'r rhain wedi'u dosbarthu'n deg gan fod rhai Grwpiau Gweithredu Lleol ond yn cefnogi prosiectau cymunedol.
- Awgrymodd y gwerthusiad y byddai dangosyddion effaith allweddol (twf economaidd; creu swyddi; a chynhyrchiant llafur) wedi cynyddu heb y rhaglen, er bod tystiolaeth o effeithiau ar lefel y buddiolwr unigol.
- Roedd rhywfaint o bwysau marw yn gysylltiedig â grantiau cyfalaf i fusnesau. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod grantiau busnes sy'n gyfyngedig i 40 neu 45% o gyfanswm y costau angen arian cyfatebol felly eu bod yn dueddol o gefnogi

prosiectau sy'n ddichonadwy yn ariannol yn eu rhinwedd eu hunain ac felly a allai yn aml fod wedi cael eu cyflawni – er yn fwy araf neu'n llai cyflawn – heb y grant. Roedd pwysau marw yn is i brosiectau a ariannwyd drwy Grwpiau Gweithredu Lleol o gymharu â'r rhai a gyflwynwyd y tu allan i ardaloedd LEADER, ac roedd yn is i gamau gweithredu cymunedol.

- Yn gyffredinol, (prosiectau arallgyfeirio gwledig a gwasanaethau cymunedol (Echel 3)), mae'r dangosydd canlyniadau cymedrig, priodoli a sgoriau pwysau marw yn dynodi mwy o werth am arian (h.y. enillion cymdeithasol uwch) ar gyfer prosiectau a gyflwynwyd drwy LEADER na phrosiectau eraill. Roedd elw o fuddsoddi (fel y'i mesurwyd drwy Fodel Elw o Fuddsoddi Cymdeithasol ceidwadol iawn) tua 1.9:1 ar gyfer prosiectau moderneiddio ffermydd (Echel 1), a 2.3:1 ar gyfer prosiectau arallgyfeirio a gwasanaethau cymunedol (Echel 3).
- Mewn rhai ardaloedd (e.e. Cymbria) arweiniodd targedu cyllid prosiectau drwy gadwyni cyflenwi lleol at welliannau economaidd mwy sylweddol a chynaliadwy.
- Cafodd buddsoddiadau mawr (>£0.5 miliwn) effeithiau enfawr ar ddatblygu economaidd lleol, gan newid, nid yn unig ymddygiad economaidd, ond hefyd ganfyddiadau o'r hyn oedd yn bosibl mewn rhai ardaloedd (e.e. storio grawn yn Nwyrain Anglia, datblygu twristiaeth yn Nyfnaint). Gallai datblygiadau bach i wella gwasanaethau cymunedol hefyd ddylanwadu ar ymddygiad a gweithgareddau ledled ardaloedd ehangach y tu hwnt i'r gymuned leol (e.e. llyn pysgota i bobl ag anableddau yn Swydd Gaerhirfryn).

Daeth y gwerthusiad i'r casgliad, er bod unigolion a rhai cymunedau wedi cael budd o fuddsoddi ar raddfa leol iawn, lle cafodd swyddi eu creu a'u cynnal, roedd y cyllid cyffredinol oedd ar gael o'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn rhy fach a gwasgaredig i gael effaith sylweddol ar yr economi wledig yn gyffredinol.

The Duke Endowment, Gogledd Carolina, UDA

Lansiodd The Duke Endowment raglen datblygu economaidd (Strengthening Economic development in rural communities) gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau fel eglwysi ac ysbytai a chorff hwyluso cymunedol. Gwariwyd cyllid mewn 22 o siroedd dros wyth mlynedd rhwng 2001 a 2009, gan ganolbwyntio ar greu swyddi a hyfforddiant. Nododd y gwerthusiad o'r prosiect (a gynhaliwyd yn fewnol), er i'r rhan fwyaf o brosiectau barhau ar ryw ffurf y tu hwnt i gyfnod y grant (a ddisgrifiwyd fel 'learning something about social barriers to economic growth' a chael rhyw fath o effaith ar 'reversing economic decline'), dim ond 10 o brosiectau a wnaeth 'significant and lasting change'. O ran creu swyddi (un o brif nodau'r rhaglen) awgrymodd y gwerthusiad mai dim ond 36% o'r rheini a gafodd hyfforddiant

a gafodd waith, heb roi unrhyw wybodaeth am y math o swyddi, na'u hansawdd na'u hyd (efallai nad ydynt i gyd yn swyddi newydd). Hefyd, dechreuwyd 229 o fusnesau bach (gyda 453 o swyddi newydd yn cael eu creu) a chafodd 455 o 'arweinwyr newydd' hyfforddiant datblygu economaidd. Ar sail buddsoddiad o $11.7 miliwn cafodd $6.6 miliwn ychwanegol ei drosoli i'w fuddsoddi mewn adnewyddu economaidd.

Gan fod y rhaglen wedi dod i ben yn 2009, nid yw'n glir beth oedd effaith y dirwasgiad economaidd ar yr ardaloedd lle ariannwyd prosiectau. Fodd bynnag, gwnaeth adroddiad y gwerthusiad nodi rhai gwersi o ran y dull gweithredu:

- gwnaeth yr arian helpu i gyflwyno'r arweinyddiaeth allweddol ac asedau allweddol eraill yr oedd eu hangen er mwyn sicrhau adnewyddu economaidd hirdymor, ac ysgogwyd cylch datblygu (er na roddwyd unrhyw dystiolaeth i ategu hyn)
- mae sefydlu tîm arwain craidd sy'n cynrychioli'r gymuned yn hanfodol i gynnwys grwpiau eraill a chyflawni cynaliadwyedd
- gwnaeth parodrwydd i weithio ar draws ffiniau ac ymgysylltu ag eraill helpu cymunedau i brofi mwy o lwyddiant (ymhlith y ffiniau roedd rhai hiliol, daearyddol, tiriogaethol a sefydliadol)
- gwnaeth treulio amser yn asesu a chynllunio helpu timau i feithrin dealltwriaeth ddibynadwy o'r sefyllfa gymunedol roeddent am ei newid, a lefel y gefnogaeth gymunedol i wneud y gwaith
- roedd gwaith monitro ac asesu parhaus yn hanfodol i gynnydd a llwyddiant.

Gwnaeth rhaglen ychwanegol, sef ‘Thriving Rural Communities’, a ariannwyd gan yr un Sefydliad gan weithio gyda'r Eglwys Fethodistaidd Unedig, anelu at ddatblygu rôl arwain eglwysi gwledig wrth gynnal bywiogrwydd eu cymunedau lleol. Buddsoddodd y rhaglen $7.6 miliwn rhwng 2006 a 2016 er mwyn helpu eglwysi gwledig i arwain y gwaith o ddatblygu cymunedau mwy hyfyw (http://dukeendowment.org/program-areas/rural-church) a chefnogi 42 o 'Gymrodorion Gweinidogaeth Wledig' a gafodd hyfforddiant mewn eglwysi gwledig. Cafodd cyfanswm o 23 o eglwysi eu cefnogi gan y rhaglen. Dynododd adroddiad gwerthuso cryno (2014, yn seiliedig ar arolwg o Gymrodorion yn unig) fod Cymrodorion yn teimlo'n fwy parod i ymdrin â phroblemau cymunedol, a nodwyd bod y rheini mewn eglwysi gwledig yn 'werthfawr' gan arwain at fwy o arweinyddiaeth o fewn eu cymunedau ac ymgysylltu ag ystod eang o weithgareddau cymorth cymunedol (e.e. bwydo timau chwaraeon lleol, rhedeg gwersylloedd haf i blant mewn tlodi). Ni welwyd unrhyw dystiolaeth o effaith gyffredinol y rhaglen ar gymunedau gwledig.

Cronfa Benthyciadau Cymunedol Vermont, UDA

Mae Cronfa Benthyciadau Cymunedol Vermont yn disgrifio ei hun fel “a community-focused alternative lender which makes loans to local businesses, community organizations & non-profit bodies, child care providers and developers of affordable housing who don’t qualify for a loan from a traditional lender”. Mae'r sefydliad yn datgan mai ei nod yw “…provide loan capital to create opportunities that lead to healthy communities and financial stability”.

Ei phrif nod yw cymryd camau seiliedig ar gyfalaf er mwyn helpu i leddfu tlodi. Mae'n targedu busnesau a rhaglenni sy'n helpu cartrefi ar incwm isel i gael gafael ar gartrefi fforddiadwy a diogel, swyddi o ansawdd, gofal plant a gwasanaethau cymunedol sylfaenol. Daw'r arian a fenthycir o'r gymuned leol ei hun; gan unigolion a theuluoedd, corfforaethau, sefydliadau, grwpiau ffydd ac “others who want investments to match their values, earning both financial and social returns”. Rhwng 1987 a 2015, gwnaeth y Gronfa roi benthyg dros $85 miliwn. Er na nodwyd unrhyw adroddiad gwerthuso, mae gwefan y Gronfa yn awgrymu bod ei buddiannau dros gyfnod o 28 mlynedd yn cynnwys:

- creu neu gynnal 4,500 o swyddi
- 3,500 o bobl (a'u teuluoedd) yn cael budd o gartrefi fforddiadwy newydd neu wedi'u hadnewyddu
- 3,400 o blant a'u teuluoedd yn cael budd o greu neu gynnal gofal o ansawdd
- helpu sefydliadau cymunedol i ddarparu gwasanaethau hanfodol i drigolion.

Buddsoddi Angel, UDA a Chanada

Dull gweithredu arall o fewn y sector preifat er mwyn hybu datblygu economaidd lleol fu datblygu'r hyn a elwir yn 'fuddsoddwyr angel', sydd ar waith mewn ardaloedd gwledig yn UDA a Chanada. Mae sefydliadau buddsoddi angel yn darparu cyllid cychwynnol i fentrau bach ac yn helpu i lenwi'r bwlch rhwng benthyciadau banciau masnachol a chyfalaf menter. Problem fawr yng Nghanada wledig, er enghraifft, yw'r lefelau isel o amrywiaeth economaidd, a ddominyddir yn aml gan sectorau busnes sy'n dirywio, a gweithwyr medrus ifanc sy'n gadael yr ardal. Yn aml, mae mentrau gwledig newydd yn rhy fach i ddenu cyfalaf menter ac yn peri gormod o risg i gael benthyciadau banc ar gyfraddau ffafriol. 'Buddsoddwyr angel' yw'r rheini â chyfalaf dros ben a fuddsoddir yn gyfnewid am gyfranddaliadau. Mae buddsoddiadau nodweddiadol rhwng $25,000 a $500,000 (OECD, 2011). Wrth i fusnesau dyfu maent yn bwydo i mewn i'r farchnad gyfalaf menter. Y ddwy brif anfantais yw'r swm cyfyngedig o gyfoeth sydd ar gael ymhlith 'angylion' ac amharodrwydd i wneud buddsoddiadau risg uchel.

Nododd Wilson (2013) rolau allweddol buddsoddwyr angel wrth ddarparu arbenigedd strategol a gweithredol ar gyfer mentrau newydd yn ogystal â chyfalaf cymdeithasol, gan nodi'r canlynol:

- Yn draddodiadol mae buddsoddwyr angel yn buddsoddi'n lleol (o fewn ychydig oriau o deithio) ac mewn ystod ehangach o sectorau na chyfalafwyr menter.
- Mae cwmnïau a gefnogir gan fuddsoddiadau angel yn gwneud cyfraniad sylweddol at swyddi a thwf economaidd (e.e. mae amcangyfrifon yn awgrymu bod 5% o swyddi newydd yn UDA yn 2009 wedi cael eu cefnogi gan fuddsoddiadau angel, a bod cwmnïau ifanc a gaiff gyllid angel 30-50% yn fwy tebygol o oroesi a pherfformio'n well)

Fodd bynnag, gwnaeth hefyd nodi bod angen datblygu pobl a chyfalaf cymdeithasol, gan gynnwys hyfforddi buddsoddwyr, paru partneriaid, a rhwydweithiau cymorth, ac i gymhellion polisi fuddsoddi mewn endidau busnes posibl.

Un enghraifft o fuddsoddi angel yw Sefydliad BrightStar Wisconsin, a sefydlwyd yn 2014 gan ganolbwyntio ar greu swyddi. Cafodd y Sefydliad ei greu gan wyth rhoddwr a wnaeth addo $500,000 i gefnogi cronfa o $6 miliwn, a'r bwriad oedd llenwi'r bwlch cyllido cam cynnar drwy ddarparu cyfrwng i helpu i ariannu creu swyddi – drwy roddion cyfalaf. O dan reolau'r dalaith, cefnogir 'buddsoddi angel' gan gymhellion credydau treth gan y Dalaith (yn cyfateb i 25% o swm y buddsoddiad ecwiti). Caiff enillion ac elw o fuddsoddi o'r Sefydliad eu hailfuddsoddi, gyda'r nod o hyrwyddo cwmnïau ar gam cynnar sy'n datblygu'n gyflym (a ddiffinnir fel <100 o gyflogeion a <10 oed) yn Winconsin. Ym mis Rhagfyr 2016 nodwyd bod portffolio BrightStar yn cynnwys 32 o gwmnïau (ychydig dros ddwy flynedd ar ôl dechrau gweithredu). Ni welwyd unrhyw adroddiad gwerthuso, ond dynododd Adroddiad Blynyddol 2015 gyfanswm asedau o $7.8 miliwn a Buddsoddiadau Portffolio o $3,814,233 mewn 14 o gwmnïau, gan greu cyfanswm o 66 o swyddi o ganlyniad i fuddsoddi (h.y. ar ôl 18 mis o weithredu). (Brightstar, 2015)

Yn Ontario, Canada roedd pwysigrwydd buddsoddwyr angel yn ddigon i arwain at sefydlu Rhaglen Rhwydwaith Angel er mwyn helpu i sefydlu grwpiau angel newydd, lle na chafwyd rhai eisoes. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys: digwyddiadau cyllido dilynol; gweithdai addysgol; atgyfeirio cyfleoedd cymwys; cyfeiriadur o grwpiau buddsoddi angel, gwerslyfrau arferion gorau, a phecyn dechrau Grŵp Angel.

Ceir buddsoddi angel yn yr Alban hefyd, sydd â nifer amcangyfrifedig o 20 o grwpiau buddsoddi angel ar hyn o bryd (Ranscombe, 2016), gan fuddsoddi £26 miliwn mewn 31 o gwmnïau yn 2014 yn ôl yr amcangyfrifon.

Slow Money, Maine, UDA

Ar raddfa fach, mae 'Slow Money Maine' yn fenter sy'n seiliedig ar fenthyciadau rhwng cymheiriaid a sefydlwyd yn 2010 i gysylltu ffermwyr, pysgotwyr ac entrepreneuriaid bwyd â ffynonellau cyllid. Mae unigolion yn gwneud benthyciadau yn uniongyrchol i gynhyrchwyr bwyd drwy gydgysylltwr sy'n cysylltu buddsoddwyr â busnesau systemau bwyd. Ymddengys fod benthyciadau yn amrywio o $1,500 i $40,000 gyda thelerau amrywiol (fel arfer tua 3-5%

o log a chyfnod ad-dalu o 1-3 blynedd). Defnyddir 'addaweb' syml ar gyfer trafodion ac mae cydberthnasau cryfach yn dueddol o ddatblygu rhwng cwsmeriaid a benthycwyr drwy sgyrsiau ac ymweliadau â safleoedd. Gwnaeth prosiect Slow Money hefyd sefydlu 'clybiau buddsoddi' i atgyfnerthu economi fwyd leol Maine drwy wneud benthyciadau bach i ffermydd a busnesau bwyd (hyd at $5,000). Mae'r ddibyniaeth ar gyllid y sector preifat, a'r angen i ad-dalu benthyciadau mewn cyfnod cymharol fyr, yn golygu y creffir yn fanylach ar gynlluniau busnes. Rhwng 2010 a 2016, mae'r fenter wedi rhoi $1.9 miliwn mewn benthyciadau, $1.5 miliwn mewn grantiau, a $0.6 miliwn mewn ecwiti; y mae $505,000 ohono wedi mynd i ffermydd a busnesau bwyd bach; $2.6 miliwn i brosesu bwyd; a $900,000 i ddiogelu ffermdir.

Ni welwyd unrhyw werthusiad ffurfiol ond nododd adroddiad o 2014 ar 'arian araf' ledled UDA (Slow Money, 2014) mai Slow Money Maine yw'r rhwydwaith lleol mwyaf gweithgar yng ngogledd-ddwyrain UDA. Nododd yr adroddiad, o arolwg o weithgarwch Arian Araf o fewn y sector cyfan yn UDA, fod tua 60% o'r trafodion yn 2013 islaw $100,000, mai maint canolig buddsoddiad oedd $30,000, a bod hanner yr holl gyllid a roddwyd mewn trafodion rhwng $100,000 a £999,000. Gwnaed tua 70% o'r holl fuddsoddiadau ledled UDA fel benthyciadau, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt o dan $100,000, tra bod buddsoddiadau ecwiti yn cyfrif am tua 20%, a grantiau a mathau eraill o gymorth (e.e. gwarantu benthyciadau, breindaliadau, dyled y gellir ei throsi) yn cyfrif am tua 10%. Nododd yr Adroddiad, ar gyfer y rhan fwyaf o'r arian a fuddsoddwyd, fod ymatebwyr i'r arolwg yn gobeithio gweld enillion rhwng blwyddyn a chwe blynedd. Nodwyd bod gan fuddsoddiadau ecwiti ragolygon tymor hwy. Nodwyd bod clybiau buddsoddi Arian Araf yn gwneud buddsoddiadau o dair mlynedd neu lai ar y cyfan, gyda chyfraddau benthyciadau rhwng 1 a 5%. Nododd yr Adroddiad fod gan ymatebwyr i arolwg 2013 yr amcanion canlynol:

- roedd tua thraean ohonynt (sef 15% o'r cyfalaf a fuddsoddwyd) yn buddsoddi'n bennaf er effaith gymdeithasol a/neu amgylcheddol.
- nododd tua 60%, sef 85% o'r cyfalaf a fuddsoddwyd, mai eu nod oedd bod heb ennill na cholli a chael effaith gymdeithasol a/neu amgylcheddol.
- o ran amcanion effaith penodol, blaenoriaethodd 60% effeithiau cymdeithasol ac economaidd, gan gynnwys cynhyrchu bwyd lleol, creu swyddi, bywiogrwydd economaidd gwledig, a'i gwneud yn haws i bawb yn America gael bwyd iach.

Farm-to-plate, Vermont, UDA

Mae mentrau rhaglenni mawr wedi deillio o'r sector cyhoeddus, ac un enghraifft yw 'Farm-to-plate', sy'n gweithredu ledled Vermont, sef un o daleithiau mwyaf gwledig rhan ogledd-ddwyreiniol UDA. Mae Farm-to-plate yn rhaglen daleithiol a ddechreuodd yn 2009 i adeiladu ar yr economi amaethyddol, a'i nod oedd "…increasing development and jobs in the farm and food sector through enhancing food processing capacity, and improving access to healthy local food". Sefydlwyd y rhaglen gan y ddeddfwrfa daleithiol i ddatblygu strategaeth 10 mlynedd â thri chanlyniad cyffredinol:

- Cynyddu datblygu economaidd yn sector bwyd a fferm Vermont;
- Creu swyddi yn yr economi bwyd a fferm;
- Gwella mynediad at fwydydd lleol iach.

Ar y cyfan, mae'r rhaglen yn anelu at gyflawni newid cymdeithasol drwy 25 o amcanion sy'n ymwneud â chynyddu cynhyrchiant, gwerthiannau, a'r defnydd o fwyd lleol, ac mae gan bob amcan nifer o strategaethau, camau gweithredu a dangosyddion perfformiad er mwyn sicrhau cynnydd. Cydnabuwyd yr angen am lefel uchel o gydgysylltu rhwng gwahanol sectorau, gan arwain at greu rhwydwaith (375 o aelodau sefydliadol yn 2014) yn cwmpasu pob elfen o'r gadwyn gyflenwi, ymchwil, hyffordiant, a sefydliadau amgylcheddol, a gefnogwyd gan sefydliad gweinyddol 'asgwrn cefn', sef Cronfa Swyddi Cynaliadwy Vermont. Treuliodd y Gronfa 18 mis yn datblygu'r strategaeth cyn y lansiad ffurfiol ym mis Ionawr 2011.

Ni welwyd unrhyw adroddiad gwerthuso, er bod nifer o adroddiadau blynyddol yn disgrifio amrywiaeth gyfyngedig o effeithiau. Mae data yn awgrymu bod swyddi newydd net amcangyfrifedig yn system fwyd Vermont wedi cynyddu 6% (3,486 o swyddi) rhwng 2009 a 2013, gan gynnwys 1,500 o swyddi gweithgynhyrchu, tra cynyddodd ffermydd a busnesau fferm 6% (645) gyda 354 o ffermydd newydd ychwanegol (ni roddwyd unrhyw wybodaeth am swyddi, cynaliadwyedd, na maint ffermydd newydd na'r math o ffermydd newydd. Amcangyfrifir bod ehangu'r system fwyd leol wedi cynyddu'r cynnyrch taleithiol gros $747.1 miliwn. Mae adroddiadau yn awgrymu buddsoddiad o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys:

- $2 filiwn (o Gronfa Menter Working Lands) a fuddsoddwyd mewn mentrau fferm a bwyd, coedwigaeth a chynhyrchion pren a rhaglenni cymorth technegol;
- $5.8 miliwn (o Rwydwaith Arianwyr Bwyd Vermont) a fuddsoddwyd mewn grantiau (yn bennaf ar gyfer diogelwch bwyd);
- $73 miliwn a fuddsoddwyd yn sector bwyd Vermont o amrywiaeth o ffynonellau gwahanol.

Ymddengys ei bod yn costio tua $600,000 y flwyddyn i weinyddu'r rhaglen. Mae adroddiad blynyddol 2015-16 (Annual Report Year 6: Fiscal 2016 **www.vtfarmtoplate.com**) yn dynodi bod gwariant yn talu am bersonél, rhedeg cyfarfodydd a gweithdai, ymgyrchu, a gwefan, gyda thua hanner yr arian yn mynd i gefnogi'r prosiect). Roedd incwm blynyddol (yn 2016) yn $638,000 gyda 60% yn dod o sefydliadau preifat, 25% o'r llywodraeth daleithiol, a'r gweddill o nawdd, cyfraniadau a ffioedd cofrestru.

Prin yw'r wybodaeth am ffynonellau 'eraill' o fuddsoddiad dros y cyfnod, felly nid oes modd nodi effaith gyffredinol rhaglen Farm-to-Plate, nac asesu pwysau marw, na dyrannu priodoli. Fodd bynnag, mae twf y sector bwyd wedi'i briodoli i gymryd camau ar y cyd a chreu rhwydwaith bwyd yn cynnwys sefydliadau ‘systematically implementing a shared vision for a

sustainable food system'. (Rhwydwaith Farm-to-Plate Vermont, 2017) Mae'r adroddiad blynyddol mwyaf diweddar (Farm-to-Plate Annual Report, 2016) yn awgrymu'r allbynnau canlynol o'r rhaglen:

- Cynnydd o $1 biliwn y flwyddyn mewn gweithgynhyrchu bwyd gwerth ychwanegol net
- Creu 6,000 o swyddi ychwanegol ers 2009
- Creu 779 o fusnesau ychwanegol ers 2009
- Gwell mynediad at fwyd lleol
- Gostyngiad o 16% mewn ansicrwydd bwyd

Menter Cyfrifon Datblygu Unigol, Oregon, UDA

Mae Cyfrif Datblygu Unigol yn helpu unigolion i gynilo a buddsoddi. Mae'r rhaglenni hyn i'w cael mewn sawl talaith ledled UDA (gan dargedu trigolion gwledig a threfol), gyda'r nod o 'investing in the personal and financial growth of individuals to build strong communities'. Dechreuodd Cyfrif Datblygu Unigol Oregon yn 1999 ac mae'n darparu arian cyfatebol fel cymhelliant i'r rheini sy'n cynilo tuag at nod penodol a bellach nodir mai dyma'r rhaglen fwyaf ei maint a mwyaf llwyddiannus yn UDA. (Menter Cyfrifon Datblygu Unigol Oregon, 2015)

Caiff y Fenter ei hariannu drwy gymhelliant credydau treth taleithiol lle gall unigolion a busnesau wneud rhoddion i Fenter Cyfrifon Datblygu Unigol Oregon drwy 'Neighborhood Partnerships', sefydliad nid er elw. Caiff cyfraniadau o hyd at $100,000 y trethdalwr y flwyddyn 75% o gredyd treth gan dalaith Oregon. Mae'r rhoddion yn ffurfio'r sail ariannol i gyfateb cynilion y sawl sy'n rhan o'r rhaglen. Yn 2012, cyfrannwyd cyfanswm o $10 miliwn.

Mae'r rhaglen ond ar gael i'r rheini sy'n bodloni meini prawf incwm isel a chymdeithasol penodol, a chyn derbyn rhywun i'r rhaglen rhaid cael addysg a hyfforddiant cyllidebu ac ariannol. Cyflwynir y rhaglen drwy bartneriaeth sy'n defnyddio sefydliadau lleol. Mae cyfranogwyr yn cofrestru ac yn pennu nod personol ar gyfer cynilo. Pan gyflawnir y nod a bod pob rhan o'r cynllun cynilo yn gyflawn, cyfatebir pob doler a gynilwyd. Yn Oregon, y gyfradd bresennol yw $3 am bob £1 a gynilir, ond mae hyn yn amrywio o un rhaglen daleithiol i'r llall, a hyd yn oed o fewn rhaglenni gellir rhoi blaenoriaeth i nodau penodol fel addysg. Gall nodau gynnwys prynu cartref, cymhwyster addysgol, datblygu busnes bach, adnewyddu cartref i safon y gellir byw ynddo, neu brynu cyfarpar gwaith.

Ni nodwyd unrhyw werthusiad ffurfiol yn cwmpasu'r cyfnod gweithredu cyfan er bod data o daflen ffeithiau (Menter Cyfrifon Datblygu Unigol Oregon, 2013) yn awgrymu rhwng 1999 a 2013 fod bron i 3,000 o raddedigion llwyddiannus a wnaeth gynilo cyfanswm o $9,660,000 tuag at brynu ased gydol oes. Mae adroddiadau blynyddol diweddar a gwerthusiad o gyfnod 2013-16 yn awgrymu bod mwy o bobl yn cofrestru ar y rhaglen. Nododd Adroddiad Blynyddol 2015 y canlynol:

- Agorodd 4,986 o unigolion CDU rhwng mis Ionawr 2012 a mis Mai 2015
- Dyblodd nifer y cynilwyr newydd mewn pum mlynedd.
- Addysg yw un o brif nodau cynilwyr, ac yna brynu cartref a dechrau busnes.
- Mae'r rhaglen yn cyrraedd pob grŵp oedran (12 oed neu'n hŷn; yr oedran cyfartalog yw 37 oed) a lleiafrifoedd ethnig
- Mae 40% o gynilwyr busnes yn bobl sengl nad ydynt yn rhieni
- Mae 66% o gynilwyr yn ferched
- Mae 70% yn graddio o'r rhaglen bob blwyddyn ar gyfartaledd
- Mae 15% yn gadael y rhaglen o'u gwirfodd bob blwyddyn ac mae llai na 10% yn torri rheolau
- Caiff arferion ariannol eu gwella, a'u cynnal, dros amser
- Dywed graddedigion eu bod yn fwy hyderus wrth ymdrin â sefydliadau ariannol
- Mae'r teuluoedd sydd wedi graddio yn ymwneud yn fwy â'r gymuned a rhwydweithiau cymdeithasol ehangach.

Nododd gwerthusiad diweddar a gynhaliwyd yn allanol (Stuczynski a Stauss, 2017), ar gyfer 2013-16, y canlynol:

- Rhwng 2013 a 2016, agorodd mwy na 4,400 o drigolion Oregon ag incwm a gwerth net cyfyngedig gyfrifon datblygu unigol er mwyn cynilo tuag at brynu neu atgyweirio prif gartref, dechrau neu ehangu busnes bach, cael addysg ôl-uwchradd neu hyfforddiant gwaith, neu gael technoleg gynorthwyol i helpu gyda gwaith.
- Rhwng 2013 a 2016, cyflawnodd 2,642 o gyfranogwyr eu nodau cynilo a gwnaed eu buddsoddiadau. Y cynilion cyfartalog oedd $2,183 fesul cyfranogwr, am gyfanswm o $5.8 miliwn. Drwy roddion oedd yn gymwys ar gyfer Credyd Treth Cyfrif Datblygu Unigol Oregon, darparwyd $6,151 mewn arian cyfatebol ar gyfartaledd fesul cyfranogwr, am gyfanswm o $16.3 miliwn.
- Noda cyfranogwyr newidiadau sylweddol mewn gwybodaeth ac ymddygiad ariannol ar ôl cwblhau'r rhaglen. Mae cynnydd mawr yng nghanran y cyfranogwyr sy'n defnyddio cyllideb, yn cadw arian wrth gefn, neu'n cynilo'n rheolaidd.
- Dywed y rhan fwyaf o'r rheini sy'n cwblhau'r rhaglen eu bod yn teimlo'n llawer mwy hyderus wrth ryngweithio â gwasanaethau a sefydliadau ariannol.
- Flwyddyn ar ôl gadael y rhaglen, mae cyfranogwyr wedi dal gafael yn eu hased a gallant gadarnhau bod yr ased wedi eu gwneud nhw eu hunain a'u teuluoedd yn fwy sefydlog. Dywedant eu bod yn fwy hyderus yn eu gallu i bennu a chyflawni nodau hirdymor.

- Mae llawer o gyfranogwyr yn dod yn genhadon galluogrwydd ariannol, gan rannu'r gwersi a ddysgwyd â phlant neu aelodau o'r teulu estynedig, neu feithrin perchenogion busnes eraill.

Microgyllid STREET, y DU

Cafodd 'Street' ei sefydlu yn 1999 er mwyn darparu benthyciadau i fusnesau bach iawn a oedd yn cael eu rhedeg gan weithredwyr hunangyflogedig nad oeddent yn cael eu hystyried yn deilwng o gredyd gan y banciau. Rhwng 2000 a 2003, rheolodd grant o £1.3 miliwn gan Sefydliad Esmee Fairbairn gan gynnig £650,000 mewn benthyciadau i 260 o ficrofentrau, ac ehangodd ei wasanaethau cymorth i fentrau er mwyn helpu ymgeiswyr i fod yn deilwng o gredyd. Cefnogodd y benthyciadau gyfran uchel o fenthycwyr BBaCh a arweinwyd gan ferched (30%) a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (54%). Fodd bynnag, nododd y rhaglen fod y galw am ei benthyciadau yn llai na'r disgwyl a bod costau yn uwch, felly newidiodd y sefydliad ei ddull o weithredu gan helpu pobl i osgoi trefnu benthyciadau drud yn lle hynny. (New Economics Foundation, 2004) Ar hyn o bryd, eir ati i helpu'r rhai mewn argyfwng i leihau costau benthyca arian i dalu dyledion. Ar hyn o bryd mae Street yn cynnig benthyciadau rhwng £200 a £1,000 dros flwyddyn. Nododd Asesiad o'r Effaith Gymdeithasol a gynhaliwyd yn 2016 (Geller, J. a K. Simms, 2016) y canlyniadau allweddol:

- Mae llawer o bobl yn ei chael hi'n anodd talu costau bob dydd. Defnyddir benthyciadau i dalu am welliannau i'r cartref, y Nadolig a gwyliau gan amlaf
- Mae ei angen er mwyn diogelu'r rheini sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas a sicrhau y gall cartrefi incwm isel gael gafael ar gyllid fforddiadwy heb wynebu'r risg o orfod ad-dalu dyledion sydd allan o reolaeth.

Yn 2015-16 rhoddodd Street £2.3 miliwn i gleientiaid, yr amcangyfrifwyd ei fod wedi arbed dros £1.5 miliwn iddynt mewn ad-daliadau dyledion (petaent wedi mynd i fenthycwyr eraill). Dywedodd 79% o gleientiaid fod yr effaith yn fwy nag effaith ariannol yn unig: dywedodd un o bob pedwar fod Street wedi helpu gyda chyflogaeth/hunangyflogaeth; dywedodd 72% fod cyngor a chymorth wedi helpu i reoli cyllid yn well. Mae 72% o gleientiaid yn ferched; mae 45% yn rhieni unigol; mae 52% yn ddi-waith; mae 60% yn byw mewn tai cymdeithasol; mae gan 70% un neu fwy o ddiffygdaliadau ar ffeiliau credyd.

Cronfa Ynni Cymunedau Gwledig, Lloegr

Mae Cronfa Ynni Cymunedau Gwledig yn darparu cymorth i gymunedau ddatblygu asedau ynni lleol. Dechreuodd yn 2013 a hyd yn hyn mae wedi cefnogi astudiaethau o

ddichonolrwydd ynni adnewyddadwy mewn tua 100 o gymunedau. Mae'r cynllun yn cynnig rhaglen gymorth tri cham drwy fenter rhwng dwy adran lywodraethol (DECC a Defra). Mae'r cam cyntaf yn cynnig grantiau (hyd at £20,000) ar gyfer astudiaethau dichonoldeb; a ddilynir gan fenthyciadau anwarantedig (Cam 2) o hyd at £130,000 i dywys prosiectau drwy'r broses gynllunio.

Yn ôl gwerthusiad diweddar (Ricardo Energy & Environment a CCRI, 2017) mae'r grantiau dichonoldeb yn cael eu hystyried yn hynod werthfawr gan gymunedau bach a nodir yn glir eu bod yn llenwi 'bwlch' mewn cyllid, gan alluogi cymunedau i nodi prosiectau addas i'w datblygu. Bu llawer llai o ddiddordeb mewn cyllid Cam 2, sydd ar ffurf benthyciad anwarantedig i dywys prosiectau drwy'r broses gynllunio. *Tybiwyd* bod benthyciadau yn anffafriol oherwydd gofyniad premiwm ad-dalu o 45% pan gaffaelir cyllid datblygu (dim ond pan gaiff y prosiect gyllid datblygu yr ad-delir y benthyciad, a defnyddir y premiwm i ategu'r gronfa). Mewn rhai achosion, mae hyn wedi arwain at gymunedau yn chwilio am ffynonellau eraill o gyllid. Mae newidiadau ym mholisi'r llywodraeth (yn enwedig gostyngiad yn y tariff cyflenwi a newidiadau i gymhellion treth) wedi creu ansicrwydd ynghylch dichonoldeb ariannol ac wedi lleihau hyder cymunedau a datblygwyr, gan arwain at ostyngiad yn llif prosiectau.

Ystyrir bod y Gronfa yn ffordd werthfawr o gefnogi cymunedau i ddatblygu asedau sy'n cynhyrchu incwm. Mae dadansoddiad cost a budd (sy'n ymgorffori model cynhyrchu ynni a dadansoddiad Elw Cymdeithasol o Fuddsoddi) yn datgelu cymhareb cost a budd o 1.53:1 ar gyfer cymunedau a 1.3:1 ar lefel ccc yn y DU. Mae'r buddiannau net fesul £ a gaiff ei gwario dros £6 ar lefel gymunedol a £3 ar lefel ccc y DU.

Talent Match, Lloegr

Mae Talent Match (nad yw wedi'i chynnwys yn Nhabl 1) yn fenter newydd sy'n anelu at leihau diweithdra ymhlith pobl ifanc, a'r bwriad yw ei gweithredu am 6 blynedd (rhwng 2013 a 2019) gan ddefnyddio arian y Loteri Fawr sy'n gyfanswm o £108 miliwn. Rhoddir yr arian i 21 o ardaloedd Partneriaeth Menter Leol (trefol a gwledig) sydd wedi profi lefelau arbennig o uchel o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar ddatblygu dulliau cyfannol o drechu 'diffyg gwaith' ymhlith pobl nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) yn yr hirdymor.

Nododd adroddiad blynyddol yn 2014 fod y gost o gyflawni'r rhaglen fesul buddiolwr rhwng £1,603 a £7,550; mae'r 'gost fesul canlyniad swydd gynaliadwy' yn amrywio o ychydig dros £4,000 mewn un bartneriaeth i £37,750 mewn un arall. Hefyd, nododd yr adroddiad newidiadau yn y farchnad lafur, sy'n awgrymu bod diweithdra ymhlith pobl ifanc yn broblem gylchol ac yn broblem strwythurol neu dymor hwy. Ymhlith y rhwystrau at waith mae rhwystrau ymarferol (trafnidiaeth yn arbennig), problemau o ran argaeledd swyddi lleol a'u hansawdd, ond hefyd ffactorau cynhenid yn ymwneud ag unigolion (fel lefelau isel iawn o hunanhyder a hunanbarch). Mae'r rhaglen yn awgrymu bod angen cryn gefnogaeth er

mwyn meithrin hyder pobl NEET hirdymor, yn ogystal â mynd i'r afael ag anawsterau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig.

Manylion yr Awduron

Mae **John Powell** yn Uwch Gymrawd Ymchwil yn Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a'r Gymuned, Prifysgol Swydd Gaerloyw.

Mae **Dan Keech** yn Gymrawd Ymchwil yn Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a'r Gymuned, Prifysgol Swydd Gaerloyw.

Mae **Matt Reed** yn Uwch Gymrawd Ymchwil yn Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a'r Gymuned, Prifysgol Swydd Gaerloyw

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:
Emyr Williams
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
+44 (0) 29 2087 5345
info@wcpp.org.uk

OGL Trwyddedwyd yr adroddiad hwn o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru